

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Effaith bosibl Mesur Seneddol
Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r
Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol
ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru

Chwefror 2011



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae copi electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Community.Culture.Comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Effaith bosibl Mesur Seneddol
Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r
Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol
ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru

Chwefror 2011



Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

Prif swyddogaeth y pwyllgorau craffu yw archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi'r Llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig sydd o fewn eu cylch gwaith.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn cynnwys:

- tai;
- diogelwch cymunedol;
- cynhwysiant cymunedol, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf a'r Cynllun Gofodol;
- y Gymraeg, chwaraeon a diwylliant.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Nodir ei bwerau yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Rheol Sefydlog 12 yn arbennig. Ceir y rhain yn www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r Pwyllgor



Sandy Mewies
(Cadeirydd)
Delyn
Llafur



Mohammad Asghar
Dwyrain De Cymru
Ceidwadwyr Cymreig



Eleanor Burnham
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol
Cymru



Alun Davies
Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Llafur



Mark Isherwood
Gogledd Cymru
Ceidwadwyr Cymreig



Bethan Jenkins
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



Dai Lloyd
Gorllewin De Cymru
Plaid Cymru



Lynne Neagle
Tor-faen
Llafur



Joyce Watson
Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Llafur

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	5
Argymhellion y Pwyllgor	6
Cyflwyniad	8
Pwy ydym ni?	8
Beth yw Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol?.....	8
Pam oeddem am gynnal ymchwiliad i effaith Mesur Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru?	9
Cylch gorchwyl	11
Sut y cynhaliwyd yr ymchwiliad?.....	11
Materion allweddol	13
1. Effaith bosibl y Mesur ar atebolrwydd democrataidd ac ymgysylltiad cymunedol.....	14
Cefndir	14
Pa mor atebol yn ddemocrataidd yw heddluoedd ar hyn o bryd?	16
Effaith y mesur ar atebolrwydd democrataidd cynrychioliadol	21
Effaith y mesur ar ymgysylltiad cymunedol.....	27
Cymhwyster Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau	31
A yw'r model Comisiynydd yn rhoi gormod o bŵer yn nwylo un person?	33
2. Cynlluniau yr Heddlu a Throseddau	34
3. Panelau yr Heddlu a Throseddau	39
Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Banel yr Heddlu a Throseddau	41
4. Gweithio mewn partneriaeth.....	44
5. Goblygiadau Ariannol y Mesur.....	49

6. Y ddadl dros ohirio sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru	53
7. Estyn pwerau i awdurdodau trwyddedu	56
Tystion	59
Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig	60

Rhagair y Cadeirydd

Mae'n hanfodol bod plismona'n digwydd er mwyn y bobl, bod cysylltiadau agos rhwng yr heddlu a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Yng nghyd-destun datganoli yng Nghymru, mae gan yr heddlu rôl werthfawr i gynorthwyo Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth eang o faterion y mae'n gyfrifol amdanynt, megis diogelwch cymunedau.

Rydym yn deall yr egwyddorion sydd wrth wraidd cyflwyno Mesur Llywodraeth y DU ar Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithaso. Roedd tystiolaeth ein hymchwiliad yn dangos y dylai'r gwaith barhau i gynyddu atebolrwydd democrataidd yr heddlu.

Fodd bynnag, yr her sy'n wynebu'r Llywodraeth yw troi'r egwyddorion sydd i'w croesawu yn realiti effeithiol ac ymarferol. Yn anffodus, mae tystiolaeth ein hymchwiliad wedi codi nifer o bryderon pwysig ynghylch a fydd cynigion Llywodraeth y DU, yng Nghymru, yn sicrhau'r atebolrwydd democrataidd yr hoffai ei weld. Hefyd, mae'n codi amheuon pwysig ynghylch goblygiadau ariannol ehangach a thryloywder model Comisiynydd arfaethedig Llywodraeth y DU, materion a allai fod â goblygiadau pwysig i ddiogelwch cymunedol yng Nghymru.

Ar sail y dystiolaeth sydd gerbron, rydym, felly, yn galw am ohirio yng Nghymru yr agweddau hynny ar y Mesur sy'n ymwneud â sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Phanelau yr Heddlu a Throseddau.

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn ddiolch o galon i'r holl unigolion a'r sefydliadau hynny a rannodd eu profiad a'u cyngor â ni, boed mewn cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol ynteu mewn ymateb i'n galwad am dystiolaeth. Byddai wedi bod yn amhosibl inni ysgrifennu'r adroddiad hwn heb eu gwaith caled a'u cyfraniadau hwy.

Yn olaf, hoffwn ddiolch hefyd i holl aelodau'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant am eu treiddgarwch a'u cyfraniadau drwy gydol yr ymchwiliad hwn, a hoffwn hefyd fynegi fy nioch i'r Aelodau Cynulliad a weithredodd fel Aelodau dirprwyol yn ystod yr ymchwiliad.

Argymhellion y Pwyllgor

Prif argymhelliad:

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i ohirio cyflwyno'r agweddau hynny ar y mesur sy'n ymwneud â diddymu Awdurdodau Heddlu a sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Phanelau Heddlu a Throseddu yng Nghymru, o leiaf nes bydd effeithiolrwydd eu heffaith yn Lloegr wedi ei asesu.¹

(Tudalen 55)

Argymhellion eraill:

Rhestrir isod argymhellion eraill y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru, yn y drefn maent yn ymddangos yn yr adroddiad. Cyfeirier at dudalennau perthnasol yr adroddiad i weld y dystiolaeth ategol a'r casgliadau.

Mae'r Pwyllgor yn rhagweld y gall Argymhelliad 1 gael ei ddiystyru gan Lywodraeth Cymru os na chaiff ei Brif argymhelliad ei dderbyn a'i weithredu'n llwyddiannus.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i weithio gydag Awdurdodau'r Heddlu i ddatblygu ymagwedd gyson tuag at ymgysylltiad cymunedol ac i weithio mewn partneriaeth. Dylai hyn adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd eisoes yng Nghymru, a gwella'r cyfleoedd i bobl leol ddylanwadu ar blismona o fewn y trefniadau presennol.

(Tudalen 27)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisïau'n briodol, gan gynnwys y Strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, i sicrhau bod modd cyflawni ac integreiddio eu hamcanion yn yr hinsawdd polisi a fydd yn deillio o fersiwn derfynol y Mesur.

(Tudalen 38)

¹ Yr oedd dau Aelod o'r Pwyllgor—sef Mark Isherwood AC a Mohammad Ashgar AC—yn gwrthwynebu cynnwys Prif Argymhelliad ac Argymhelliad 4 yr adroddiad pan gytunwyd arno ar 17 Chwefror 2011. Dywedodd Sandy Mewies AC, Lynne Neagle AC, Val Lloyd AC (yn dirprwyo ar ran Joyce Watson AC), Rosemary Butler AC (yn dirprwyo ar ran Alun Davies AC), Dai Lloyd AC, Bethan Jenkins AC a Veronica German AC (yn dirprwyo ar ran Eleanor Burnham AC) eu bod yn cefnogi cynnwys y Prif Argymhelliad ac Argymhelliad 4 yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i roi canllawiau statudol clir i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar flaenoriaethau cenedlaethol. (Tudalen 38)

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i argymell bod Panelau yr Heddlu a Throseddu yn cael eu gweithredu mewn modd sy'n seiliedig ar ddull cydsyniol â'r Comisiynydd, a'r ddwy ochr yn meddu ar bwerau cyfartal. Rhagwelwn y byddai hyn yn golygu y byddai'r Comisiynydd a'r Panel yn ymgymryd â rôl gyfartal wrth benodi neu ddiswyddo'r Prif Gwnstabl, pennu'r praesept a chytuno ar flaenoriaethau strategol drwy Gynllun lleol yr Heddlu a Throseddu.² (Tudalen 41)

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i ddarparu canllawiau ar sefydlu proses gyson, a fydd yn golygu y bydd Comisiynwyr a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn sicrhau bod eu hagendâu a'u hamcanion strategol eu hunain wedi'u halinio. (Tudalen 48)

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i egluro sut y bydd trefniadau llywodraethiant lleol dros faterion diogelwch cymunedol yn gweithio yn y cyd-destun Cymreig, yn dilyn unrhyw newidiadau'n deillio o'r Mesur. (Tudalen 48)

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i bwysleisio y dylai barhau i ddatblygu protocolau eglur i arwain y berthynas rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Llywodraeth ganolog. (Tudalen 52)

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i ailedrych ar effeithiau ariannol y Mesur ar Awdurdodau Lleol, ac i ystyried adolygu'r trefniadau cyllido arfaethedig ar gyfer Panelau yr Heddlu a Throseddu yn unol â hynny. (Tudalen 52)

² Gwelwch troednodyn 1

Cyflwyniad

Pwy ydym ni?

1. Un o bwyllgorau trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, sy'n cynnwys Aelodau o bob un o'r 4 plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad.
2. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar wariant, gweinyddiad a pholisi Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran Tai, Diogelwch Cymunedol, Cynhwysiant Cymunedol, yr Iaith Gymraeg, Chwaraeon a Diwylliant.
3. Weithiau byddwn yn gwneud y gwaith hwn drwy gynnal ymchwiliad i fater penodol. Mae hyn yn golygu ein bod yn siarad â llawer o bobl wahanol i gasglu tystiolaeth am yr hyn sy'n digwydd ynghylch mater penodol. Gwneir hynny cyn cyflwyno'n canfyddiadau i'r Cynulliad a gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.
4. Mae'r adroddiad hwn yn deillio o ymchwiliad o'r fath, dan y teitl 'effaith bosibl Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru'

Beth yw Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol?

5. Cyflwynwyd *Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol* yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Tachwedd 2010.³ Mae'r Mesur yn ymdrin â phum maes polisi, sef:

- atebolrwydd a llywodraethiant yr heddlu;
- trwyddedu alcohol;
- rheoli protestiadau yng nghyffiniau Parliament Square;
- camddefnyddio cyffuriau;
- a chyhoeddi gwarantau arestio ynghylch erlyniadau preifat yn achos troseddau awdurdodaeth cyffredinol

³ Mae'r Mesur seneddol yn gymwys i Gymru a Lloegr. Bydd cymalau 149 a 150 y Mesur, sy'n ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau, yn gymwys i'r Alban a Gogledd Iwerddon hefyd.

6. Mae'r darpariaethau allweddol yn y Mesur yn cynnwys:
- disodli awdurdodau heddlu gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a etholir yn uniongyrchol o fis Mai 2012, gyda'r nod o wella atebolrwydd yr heddlu;
 - diwygio *Deddf Trwyddedu 2003* i roi mwy o bwerau i awdurdodau lleol a'r heddlu i fynd i'r afael ag unrhyw fangreoedd sy'n achosi problemau, gan ddyblu uchafswm y ddirwy am werthu alcohol yn gyson i ran o dan oed, ac i ganiatáu i awdurdodau lleol godi mwy am drwyddedau hwyr yn y nos i gyfrannu at y gost o blismona economi hwyr yn y nos;
 - rheoleiddio protestiadau yng nghyffiniau Parliament Square. Byddai adrannau perthnasol Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu (SOCPA) 2005 yn cael eu diddymu, a gwaherddid gwersylla a gweithgarwch aflonyddgar arall yn Parliament Square;
 - galluogi'r Ysgrifennydd Cartref i wahardd cyffuriau dros dro am hyd at flwyddyn, a diddymu'r gofyniad statudol ar y Cyngor Cynghori ar Gamddefnyddio Cyffuriau i gynnwys aelodau sydd â phrofiad o weithgareddau penodol;
 - cyflwyno gofyniad newydd ar erlynwyr preifat i sicrhau cydsyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus cyn cyhoeddi gwarant arestio am droseddau 'awdurdodaeth cyffredinol', megis troseddau rhyfel ac arteithio. Nod y Llywodraeth wrth gyflwyno'r newid hwn yw atal y llysoedd rhag cael eu defnyddio at ddibenion gwleidyddol.

7. Yn fwyaf arbennig, ar ôl i'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth gael ei chlywed yn ein hymchwiliad, ar 8 Chwefror 2011, pleidleisiodd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Ddarpariaethau'n gysylltiedig â Phanelau yr Heddlu a Throseddu yn Rhan 1 Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol.

Pam oeddem am gynnal ymchwiliad i effaith Mesur Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar Ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru?

8. Mae'r cyfrifoldeb dros blismona a thrwyddedu y tu allan i gylch gorchwyl Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, buom yn ystyried a fyddai'n briodol ai peidio inni graffu ar effaith y ddeddfwriaeth hon.

9. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yr heddlu'n bartneriaid allweddol i gyflawni llawer o bolisiâu Llywodraeth Cymru, megis ei hagenda ar gymunedau diogelach a chryfach, sydd â'r nod o sicrhau cymunedau diogelach yng Nghymru. Roeddem o'r farn y gallai unrhyw newidiadau yn atebolrwydd a threfniadau llywodraethiant yr heddlu gael effaith ganlyniadol sylweddol ar faterion megis diogelwch cymunedol yng Nghymru. Mae hwnnw'n faes cyfrifoldeb sydd wedi'i ddatganoli i Gymru ac sy'n dod o fewn cylch gorchwyl ein pwyllgor.

10. Rydym yn ymwybodol hefyd nad yw'r heddlu'n gallu nac yn ceisio mynd i'r afael â throseddau ar eu pen eu hunain. Gall llawer o ffactorau effeithio ar droseddolrwydd yng Nghymru, gan gynnwys tai, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, addysg a gwasanaethau plant eraill, adfywio economaidd a chymdeithasol, trais yn y cartref a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r materion hyn oll yn gyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli i Gymru. O ganlyniad, yr oeddem o'r farn ei bod yn hanfodol inni ymchwilio i weld a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn atebolrwydd a threfniadau llywodraethiant yr heddlu yng Nghymru yn ystyried y cyd-destun datganoledig.

11. Hefyd, roeddem yn ymwybodol bod rhai cymalau yn y Mesur yn caniatáu ar gyfer trefniadau arbennig i Gymru, yn fwyaf arbennig y byddai Panelau yr Heddlu a Throseddau yn cynnwys un aelod wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru o blith y cynrychiolwyr etholedig lleol.

12. Roeddem o'r farn, felly, y byddai'n gwbl briodol inni gynnal ymchwiliad i oblygiadau posibl y mesur i ddiogelwch cymunedol yng Nghymru.

13. Roeddem wedi sylwi bod nifer o'n tystion wedi dweud eu bod yn arbennig o falch ein bod wedi cynnal yr ymchwiliad hwn, a Cymorth i Ferched Cymru, er enghraifft, yn dweud ei fod yn:

“warmly welcomes the Communities and Culture inquiry into the potential impact of the UK Government’s Police Reform and Social Responsibility for community safety in Wales. We hope the Inquiry leads to improvements in understanding around the implications of these reforms.”⁴

⁴ CC(3)-02-11 Papur 1

Cylch gorchwyl

14. Cytunwyd ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer cynnal ymchwiliad ar 13 Ionawr 2011 i 'effaith Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru'.

15. Bydd y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant:

- yn archwilio effaith bosibl y Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried:
 - o Effaith bosibl y mesur ar ymgysylltiad cymunedol yng Nghymru, a gallu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i gynrychioli cymunedau ar lefel ardaloedd Heddlu mewn modd effeithiol;
 - o Sut yr effeithir ar Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ac asiantaethau cyfiawnder troseddol ehangach yng Nghymru dan y trefniadau plismona newydd;
 - o Goblygiadau ariannol y mesur a'r canlyniadau i ddiogelwch cymunedol yng Nghymru;
- yn ystyried effaith bosibl y mesur ar atebolrwydd democrataidd plismona a diogelwch cymunedol yng Nghymru;
- yn ystyried rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gymeradwyo penodi cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar Banelau Heddlu a Throseddau yng Nghymru.

Sut y cynhaliwyd yr ymchwiliad?

16. Lanswyd ein hymchwiliad i 'effaith y Mesur Seneddol ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch Cymunedol yng Nghymru' ym mis Ionawr 2011 a galwyd am dystiolaeth ysgrifenedig.

17. Cawsom 10 ymateb i'r alwad hon gan amrywiaeth o randdeiliaid o'r sector statudol a'r trydydd sector. Clywyd dystiolaeth lafar hefyd fel rhan o'r ymchwiliad mewn dau Gyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor, ym mis Ionawr a mis Chwefror 2011.

18. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i Bwyllgor Mesurau Cyhoeddus Senedd y DU gyda'r nod o gyfrannu at ei drafodaethau. Gyda hyn

mewn golwg, pennwyd dyddiad cau anarferol o gynnar ar gyfer ymateb i'n galwad am dystiolaeth (3 wythnos).

19. Yn y cyd-destun hwn, credwn ei bod yn briodol cydnabod y pryderon a fynegwyd, yn fwyaf arbennig gan Cymorth i Ferched Cymru, oherwydd bod y Mesur ei hun wedi ei ddatblygu mor gyflym, gan nodi bod:

“the consultation period for the proposed changes, ‘Policing in the 21st Century’, was only eight weeks instead of the usual twelve-week period. This timeframe did not give Welsh Women’s Aid and other organisations the necessary time to respond to the changes.”⁵

20. Nodwn hefyd y pryderon a fynegwyd gan dystion ynghylch y diffyg manylion yn ymwneud â gweithredu nifer o gynigion y Mesur, a Cymorth i Ferched Cymru yn dweud bod:

“The information in the Bill is still very unclear, and that is a concern that we have about several things that have been proposed.”⁶

21. Rydym, felly, yn ddiolchgar dros ben i'r unigolion a'r sefydliadau hynny sydd wedi rhannu eu profiad a'u cyngor gyda ni – mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r pwyllgor ac mewn ymateb i'n galwad am dystiolaeth – ac am ymateb mor brydlon. Ni fyddai wedi bod yn bosibl inni ysgrifennu'r adroddiad hwn heb eu gwaith caled a'u cyfraniadau hwy.

⁵ CC(3)-02-11 Papur 1

⁶ Cofnod y Trafodion, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 27 Ionawr 2011, Paragraff (Para) 28

Materion allweddol

22. Ar ôl cynnal ein hymchwiliad, gallwn yn awr gyflwyno cyfres o gasgliadau ac argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth i Lywodraeth Cymru, a phobl eraill berthnasol. Ceir crynodeb o'n hargymhellion ar dudalennau 7-8 yr adroddiad hwn.

23. Cafwyd cytundeb ymhlith llawer o'n tystion ar nifer o themâu allweddol yn ystod yr ymchwiliad. Er enghraifft, yr oedd y rhan fwyaf o'r tystion wedi mynegi pryderon am na fyddai'r cynigion yn y Mesur yn cynyddu atebolrwydd democrataidd yr heddlu yng Nghymru.

24. Yn yr un modd, yr oedd ein tystion i gyd bron yn poeni am oblygiadau ariannol y Mesur, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

25. Rydym wedi ystyried y themâu hyn yn fanylach yn y 7 pennod sy'n dilyn:

- Effaith bosibl y Mesur ar atebolrwydd democrataidd ac ymgysylltiad cymunedol;
- Cynlluniau yr Heddlu a Throseddu;
- Panelau yr Heddlu a Throseddu;
- Gweithio mewn Partneriaeth;
- Goblygiadau ariannol y Mesur;
- Y ddadl dros ohirio sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru;
- Estyn pwerau i awdurdodau trwyddedu.

1. Effaith bosibl y Mesur ar atebolrwydd democrataidd ac ymgysylltiad cymunedol

Cefndir

26. Mae'r cyfrifoldeb dros blismona ar hyn o bryd yn seiliedig ar berthynas deiran rhwng yr Ysgrifennydd Cartref, Cymdeithas Awdurdodau Heddlu⁷ a Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO):

“In theory, the tripartite arrangement sets out that the Home Secretary is responsible to parliament for the overarching efficiency and effectiveness of the service in England and Wales, as well as the maintenance of minimum service standards. Chief constables are responsible for the operational effectiveness of police forces. Police authorities are responsible for setting the strategic direction for each force and holding the chief constable to account on behalf of the local community.”⁸

27. Ar hyn o bryd, mae gan bob un o heddluoedd Cymru a Lloegr ei awdurdod heddlu ei hun. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau 17 o aelodau - naw cynghorydd ac 8 aelod annibynnol - er bod gan rai fwy o aelodau. Mae cynghorwyr sy'n aelodau yn cael eu dewis gan awdurdodau lleol (neu gydbwyllgorau awdurdodau lleol) ac ynadon lleol yn cael eu dewis gan Banelau Dethol y Llysoedd Ynadon. Caiff ceisiadau i fod yn aelodau annibynnol eu hysbysebu.

28. Yn ôl y strwythur presennol, mae dyletswydd statudol ar bob awdurdod heddlu i ystyried barn y gymuned leol ac i ymgysylltu â'r gymuned i sicrhau eu bod yn cynrychioli barn pobl leol yn briodol ar faterion plismona.

⁷ Mae swyddogaethau awdurdodau'r heddlu'n cael eu llywodraethu gan Ddeddf yr Heddlu 1996 a Rheoliadau Awdurdodau'r Heddlu 2008. Mae gan fwyafrif awdurdodau'r heddlu 17 o aelodau, 9 ohonynt yn gynghorwyr lleol ac 8 yn aelodau annibynnol, a rhaid i o leiaf un fod yn ynad. Mae gan awdurdodau heddlu Dyfed Powys a De Cymru ill dau 19 o aelodau: 10 cynghorydd a 9 aelod annibynnol. Mae gan Awdurdod Heddlu Gwent 17 aelod sy'n cynnwys 9 cynghorydd ac 8 aelod annibynnol, ac mae gan Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru 16 Aelod, 9 ohonynt yn gynghorwyr lleol a 7 yn Aelodau Annibynnol.

⁸ Y Pwyllgor Materion Cartref, *Policing in the 21st Century*, 10 Tachwedd 2008, HC 364-1 2007-08, Para 232.

29. Fodd bynnag, bu beirniadu cynyddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf nad oes gan awdurdodau heddlu ddigon o atebolrwydd democrataidd, ac nad ydynt yn weladwy nac yn hygyrch i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu a'u cynrychioli.⁹

30. Mewn ymdrech i gywiro hyn, mae llywodraeth glymblaid y DU wedi ymrwmo i wella atebolrwydd lleol plismona fel rhan o Raglen y Llywodraeth (Mai 2010), gan ddatgan y byddai yn:

“introduce measures to make the police more accountable through oversight by a directly elected individual, who will be subject to strict checks and balances by locally elected representatives”¹⁰

31. Cafodd yr ymrwymiad hwn wedyn ei ddatblygu ymhellach ym Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Mae Rhan 1 y Mesur, yn fwyaf arbennig, yn nodi cymalau a fyddai'n diddymu awdurdodau'r heddlu yn Lloegr (ac eithrio Dinas Llundain), a'u disodli gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'u hethol yn uniongyrchol ar gyfer pob heddlu y tu allan i Lundain, a Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddu ar gyfer yr Heddlu Metropolitan.¹¹ Mae'r Mesur yn datgan y byddai etholiadau i ethol Comisiynwyr yn cael eu cynnal bob pedair blynedd,¹² ac y gall Comisiynwyr wasanaethu am hyd at ddau dymor o bedair blynedd.

32. Mae'r Mesur hefyd yn nodi gofynion pendant ar y Comisiynydd i ymgysylltu â'r cymunedau a gynrychiolir ganddo ac i ystyried blaenoriaethau a phryderon lleol wrth ddatblygu Cynlluniau yr Heddlu a Throseddu.

33. Mae'r Mesur yn datgan ei bod yn rhaid i Gomisiynwyr gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth yn gysylltiedig â'r

⁹ *The role of police authorities in public engagement*, Myhill, A. Yarrow, S, Dalglish, D, Docking M. Home Office online report, 37/03; Cabinet Office, *Engaging Communities in Fighting Crime: a review* gan Louise Casey, Mehefin 2008; Y Swyddfa Gartref, *Police and Crime Commissioners: Impact Assessment* (IA No:HO0021), 30 Tachwedd 2010.

¹⁰ Llywodraeth EM, *The Coalition: Our Programme for Government*, Chapter 6: Crime and Policing, p13.

¹¹ Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2010-2011, Nodiadau Esboniadol

¹² Mae'r Swyddfa Gartref yn amcangyfrif y byddai pob set o etholiadau i ethol Comisiynwyr yn costio £50 miliwn yn ychwanegol bob pedair blynedd yn ychwanegol at gostau presennol etholiadau llywodraeth leol. Byddai'r gost ychwanegol hon yn cael ei thalu drwy setliad adolygiad o wariant y Swyddfa Gartref. *Home Office, Impact Assessment HO0021 – Police and Crime Commissioners*, 390 Tachwedd 2010, t2

cynnydd a wneir i gyflawni'r amcanion heddlu a throseddu a amlinellir yng nghynllun yr heddlu a throseddu. Dylai gwybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd hefyd i alluogi'r gymuned i asesu perfformiad y prif gwnstabl a'r Comisiynydd wrth atal troseddu ac anhrefn. Rhaid i wybodaeth yn ymwneud â staffio, cyfraddau tâl a rhoddion neu fenthyciadau a gafwyd gael ei chyhoeddi hefyd.

34. Er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau'r gymuned leol yn cael eu hystyried wrth lunio amcanion plismona lleol, rhaid i'r Comisiynydd hefyd ofyn barn y gymuned (a dioddefwyr troseddau) ar gynlluniau drafft ar gyfer yr heddlu a throseddu, a chynigion ar gyfer gwariant am y flwyddyn ariannol honno.

Pa mor atebol yn ddemocrataidd yw heddluoedd ar hyn o bryd?

“what you are investigating this morning is a solution in search of a problem.”¹³

Steve Thomas, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

35. Roedd ein tystion yn gyffredinol yn derbyn mai'r syniad wrth wraidd sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu oedd cynyddu atebolrwydd democrataidd yr heddlu. Yn wir, yn ei dogfen ymgynghori, '*Policing in the 21st Century: Reconnecting police and the people. Summary of consultation responses and next steps*', dywed Llywodraeth y DU y bydd:

“the public will be empowered to have a direct say in how their neighbourhoods are policed. This will be achieved through the introduction of Police and Crime Commissioners who will be tasked with representing the public and leading the fight against crime and anti-social behaviour. They will hold the chief constable to account; making sure that policing is responsive to communities' needs.”¹⁴

36. Yn wir, yn ôl yr Ymgyrch yn erbyn Plismona Gwleidyddol ar hyn o bryd:

¹³ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 3 Chwefror 2011, Paragraff (Para) 4

¹⁴ Y Swyddfa Gartref: *Policing in the 21st Century: Reconnecting police and the people. Summary of consultation responses and next steps*. Rhagfyr 2010.

“police authorities are not directly democratic bodies as none of its members are *directly* elected. Rather they are, at best, indirectly representative bodies, comprising higher tier (county and unitary) councillors and independent members. There are normally only 17 members no matter how large the force area. The nine councillor members are not directly elected but are appointed by their council group leaders in proportion to their numbers in the higher tier council or councils which comprise the force area. The independent members are appointed through an open application system, although the final decision on membership rests with the councillor members of the authority. Current police authorities are not therefore very accountable, democratic or even necessarily representative.”¹⁵

37. Aeth y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol ymhellach, gan ddweud bod:

“Police Authorities remain largely invisible and unaccountable to the public, who don’t have a clear view of who they are and what they do, while in fact, they hold significant powers relating to force budgets and strategic control. We are committed to scrapping the complex system of bureaucratic accountability and replacing it with democratic accountability. The introduction of PCCs will mean for the first time the public will be able to directly vote for an individual to represent their community’s policing needs. That individual will be directly accountable to the public in a way that police authorities are not... PCCs will be elected, therefore directly accountable through the ballot box to local people. This will give communities a greater and more direct say over policing. We are replacing bureaucratic accountability with democratic accountability. This will empower communities and reduce central government control.”¹⁶ The Minister of State for Policing and Criminal Justice also suggested that few members of the public were aware of Police Authorities, noting that “according to Cabinet Office research in 2008 only 7% of the public know what a police authority does.”¹⁷

¹⁵ CC(3) PR4

¹⁶ CC(3) PRB 10

¹⁷ CC(3) PRB 10

38. Fodd bynnag, dywedodd mwyafrif ein tystion eu bod o'r farn bod yr Heddlu ac Awdurdodau'r Heddlu eisoes yn atebol yn ddemocrataidd o dan y trefniadau presennol.

39. Dywedodd Awdurdodau Heddlu Cymru (PAW), er enghraifft, wrthym fod Awdurdodau Heddlu yn atebol yn ddemocrataidd i gymunedau lleol drwy gyfrwng y Cyngorwyr Lleol sy'n aelodau o Awdurdodau'r Heddlu."¹⁸ Yn wir, mae canlyniadau arolwg a gynhaliwyd gan Awdurdodau Heddlu Cymru yn amau'r haerid bod awdurdodau heddlu yng Nghymru yn anweledig, gan ei fod yn dangos bod 97% o'r rhai a holwyd un ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod wedi clywed am Awdurdodau Heddlu, a chytunodd 82% eu bod yn gwybod beth mae Awdurdod Heddlu yn ei wneud."¹⁹

40. Cafodd yr ymrwymiad cryf a ddangoswyd gan Awdurdodau Heddlu yng Nghymru tuag at ymgysylltiad cymunedol ei ategu hefyd mewn adroddiad ar system llywodraethiant yr heddlu gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC): '*Police Governance in Austerity. HMIC thematic report into the effectiveness of police governance.*' Roedd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at ddarganfyddiadau arolygiad a gynhaliwyd rhwng Medi 2009 a Gorffennaf 2010 i 22 o'r 43 Awdurdod Heddlu yng Nghymru a Lloegr. Wrth edrych ar berfformiad yn erbyn yr amcan o ymgysylltu â chymunedau, dywed yr adroddiad fod:

"In the majority of inspections (19 out of 22 police authorities) there are good individual examples of particular members engaging well in their communities and acting on specific priorities identified locally. There is a strong commitment to finding out what communities need and want from the police service, with some authorities using innovative approaches to achieve this."²⁰

41. Fodd bynnag, wrth lunio'i adroddiad roedd HMIC yn feirniadol o hanner yr Awdurdodau Heddlu a arolygwyd ganddo am fethu ag ystyried atborth cymunedau wrth ffurfio blaenoriaethau'r Heddlu. Ond er mai dim ond dau Awdurdod Heddlu o Gymru a arolygwyd (Gwent a

¹⁸ CC(3)-03-11 papur 2.

¹⁹ CC(3)-03-11 papur 2

²⁰ HMIC: *Police Governance in Austerity. HMIC thematic report into the effectiveness of police governance.* Hydref 2010.

De Cymru), roeddent ymhlith dwy o'r deg enghraifft o arfer da a welwyd mewn Awdurdodau ledled Cymru a Lloegr.

42. Er enghraifft, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru a HMIC fod Awdurdod Heddlu Gwent:

“had initiated ambitious and wide ranging reforms to improve police performance and deliver high quality policing services to the people of Gwent. They were instrumental in establishing collaborative working with other authorities and forces in Wales to improve effectiveness and value for money.”²¹

43. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru a HMIC o'r farn bod Awdurdod Heddlu De Cymru:

“is performing adequately overall, but performs well in the areas of performance scrutiny and engaging with communities. It is in a strong position to make further progress and improve. The Authority has developed a robust approach to its leadership over the past five years and there is now a more effective, constructive and challenging relationship with South Wales Police.”²²

44. Mae'r canfyddiadau hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried y dystiolaeth a roddwyd gan Awdurdodau Heddlu Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), sy'n dweud nad yw'r feirniadaeth yn erbyn Awdurdodau Heddlu yn Lloegr yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru. Yn wir, dywedodd CLILC fod:

“the premise upon which the proposals are based – that police authorities are ‘faceless’ and that there is an accountability deficit – is flawed and lacks appropriate understanding about how the current system operates, particularly within Wales... the seniority of local politicians who sit on Police Authorities reflects the seriousness that tackling crime and disorder, anti-social behaviour and protecting the public is given by local authorities.”²³

²¹ Swyddfa Archwilio Cymru, Datganiad i'r Wasg: Mae Awdurdod Heddlu Gwent yn perfformio'n dda ac mewn sefyllfa gadarn i wella ymhellach, 24 Chwefror 2010, http://www.wao.gov.uk/127_3104.asp

²² Swyddfa Archwilio Cymru a HMIC, Arolygiad o Awdurdodau Heddlu – Awdurdod Heddlu De Cymru, Mehefin 2010, para 1.

²³ CC(3)-03-11. papur 1.

45. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd CLILC:

“we have a system where we have engagement with police authorities. They have done a very good job in recent years. I am thinking, for example, of the row that occurred about the precept for South Wales Police a few years ago, which showed the police authority holding the chief constable to account in a rigorous way. It may be the case that police authorities in England are perceived to be generally ineffective; in Wales, I do not think that they are.”²⁴

46. Roedd Cymorth i Ferched Cymru yn cytuno â'r farn hon, gan ddweud bod:

“processes are already in place under the present system. As it stands when discharging its functions, every police authority is under a statutory duty to take into account the views of the local community, and to make arrangements for obtaining the views of local people on policing matters (e.g. via surveys or meetings)... Furthermore, local Councillors are also under a duty to respond to ‘community call for action’ from anybody living or working in the area which they represent on a matter concerning crime and disorder... These opportunities already give local communities the ability to significantly impact on local policing issues.”²⁵

47. Roedd y safbwyntiau hyn yn adleisio'r hyn a ddywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru, mewn datganiad llafar i'r Cyfarfod Llawn ar 12 Hydref, pan ddywedodd bod heddluoedd “[yng Nghymru] are already accountable to their local communities through their police authorities.”²⁶

48. Yn wir, roedd CLILC, Awdurdodau Heddlu Cymru a Cymorth i Ferched Cymru i gyd yn cytuno, yn hytrach na “dismantling the entire system”,²⁷ y byddai'n fwy effeithiol cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd

²⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 3 Chwefror 2011, Para 8.

²⁵ CC(3)-02-11, papur 1.

²⁶ Datganiad Llafar gan y Gweinidog, Carl Sargeant AC, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, *Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar y Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol* 12 Hydref 2010.

²⁷ CC(3)-03-11, papur 1.

o gynrychiolwyr presennol awdurdodau heddlu a'u rôl ymhlith y cyhoedd. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru:

“there is no evidence that... having Police Commissioners... will increase the democratic accountability of community safety and policing.”²⁸

Effaith y mesur ar atebolrwydd democrataidd cynrychioliadol

49. Rydym o'r farn mai un o egwyddorion sylfaenol democratiaeth gynrychioliadol yw bod cynrychiolwyr etholedig un ai'n llywodraethu ynteu'n dwyn y sawl sy'n llywodraethu i gyfrif am eu gweithredoedd.

50. Fodd bynnag, mynegodd nifer o'n tystion bryderon ynglŷn â pha mor effeithiol y gallai Comisiynwyr yr Heddlu fod mewn gwirionedd wrth gynrychioli'r bobl o fewn eu hardaloedd daearyddol eang, wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn.

51. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru, er y gallai'r 17 – 19 aelod o Awdurdod Heddlu gynrychioli amrywiaeth eang o grwpiau ethnig, rhywiolaethau, cefndiroedd gwledig neu drefol a'r ddau ryw, ac ati, na fyddai modd i un Comisiynydd wneud hyn. Meddent:

“replacing 17 or 19 members of a Police Authority with a single individual will decrease rather than increase the connection with the public, especially in large geographical areas such as Dyfed-Powys.”²⁹

52. Tynnwyd sylw gan Cymorth i Ferched Cymru hefyd at bryderon ynghylch proffil demograffig tebygol y Comisiynwyr etholedig. Dywedwyd y bydd yr ymgeisydd gwrywaidd, gwyn nodweddiadol dosbarth canol am swydd Comisiynydd yn tanseilio'n ddifrifol amrywiaeth yn y system atebolrwydd. Ategwyd hyn gan ymchwil a gynhaliwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2009, a ddarganfu mai:

- dim ond 25% o Gadeiryddion Awdurdodau Heddlu a Phrif Gwnstabiliaid yng Nghymru sy'n fenywod. Dim ond 24% o Swyddogion Heddlu yng Nghymru sy'n fenywod;
- nid oes yr un Prif Weithredwr yn y 100 Uchaf o gwmnïau preifat Cymru sy'n fenyw;

²⁸ CC(3)-02-11, papur 1.

²⁹ CC(3)-02-11, papur 1.

- dim ond 9% o arweinwyr cyngorau Cymru sy'n fenywod;
- dim ond 25% o gynghorwyr Cymru sy'n fenywod. Nid oes yr un cyngorydd benywaidd du nac Asiaidd yng Nghymru; a
- dim ond 21% o brif weithredwyr awdurdodau lleol sy'n fenywod. Mae 73% o holl staff awdurdodau lleol yn fenywod.³⁰

53. Cydnabu'r Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol y byddai annog amrywiaeth eang o ymgeiswyr i ymgeisio am swydd Comisiynydd yn holl bwysig, a dywedodd ei fod wedi:

“set up a working group to consider how we may encourage a diverse range of candidates as possible. This work is in its early stages, but already we are considering how we may promote and support this aim.”³¹

54. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth lafar dywedodd CLILC:

“we know that the issue of policing and crime attracts a certain political view. Our colleagues in the Local Government Association have concerns, particularly in the London area, about the role of possible British National Party candidates.”³²

55. Aeth Cymorth i Ferched Cymru ymlaen i bwysleisio, yn rhinwedd nifer y cynrychiolwyr a benodir i Awdurdodau Heddlu, bod mwy o gyfle i aelodau ddod o feysydd amrywiol. Meddent:

“concentrating police accountability in the hands of one figure risks excluding those from minority or under represented groups. This could well serve to exacerbate tension in communities which are already fractured along religious or ethnic grounds.”³³

56. Cyfeiriodd CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru at nod Llywodraeth y DU o sicrhau y byddai ymgeiswyr yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd, ond dywedodd:

“in reality it will be difficult for independent candidates to be able to compete against political party candidates... this will be

³⁰ Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2009, 'Pwy sy'n rhedeg Cymru.'

³¹ CC(3) PRB 10.

³² Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 3 Chwefror 2011, para 26

³³ CC(3)-02-11, papur 1.

especially true for women and candidates from BME backgrounds.”³⁴

57. Cytunodd Cymorth i Ferched Cymru â’r safbwynt hwn, gan haeru:

“given the size of the constituencies that candidates standing for election will have to cover, they will in the main have to rely on party political organisations to reach the communities in their area to get their messages and commitments across. This could lead to politicians and political parties telling chief constables how to do their job and will interfere in day-to-day policing.”³⁵

58. Dywedodd yr Ymgyrch yn erbyn Plismona Gwleidyddol:

“An individual in order to get elected will normally need the support of a party machine to advertise and canvas. The most extensive and effective party machines are provided directly by the main parliamentary political parties. Therefore the likelihood of an independent member being elected as a Police and Crime Commissioner is simply remote. It is conceivable that an independent could be elected, but it is likely that in such circumstances to be on an extremist or highly populist ticket... National politics will be much more easily brought to bear in the new system. If most [Police Commissioners] are from the main parliamentary political parties it will be relatively easy for them to be directed by national political figures, in effect for them to be ‘whipped in’. Any independence of spirit could simply result in the withdrawal of party support at the next election.”³⁶

59. Yn wir, sylwodd yr Ymgyrch yn erbyn Plismona Gwleidyddol ar yr hyn sy’n digwydd yn Efrog Newydd:

“there have been clear instances of political interference in the operation of those local forces... when it became apparent that [Police Commissioner Bill] Bratton was getting, quite justifiably, the credit for the benefits the new policing arrangements were delivering [Mayor Rudolph] Giuliani sacked him... with only one

³⁴ CC(3)-03-11, papur 2.

³⁵ CC(3)-02-11, papur 1.

³⁶ CC(3) PR4.

person responsible for appointment inappropriate influence could not in future be ruled out.”³⁷

60. Dywedodd Awdurdodau Heddlu Cymru y gallai gwneud plismona’n fater gwleidyddol fel hyn gael goblygiadau pellgyrhaeddol, gan ychwanegu:

“even where the decisions are sensible, they may be seen as “factional” i.e. in the interests of the political party or locality of the Commissioner rather than being in the interests of the whole community. There is a very real danger that this will undermine public confidence in the police.”³⁸

61. Mynegwyd pryderon tebyg gan yr Ymgyrch yn erbyn Plismona Gwleidyddol, a ddywedodd:

“The furore over the alleged extended incidence of phone tapping associated with the News of the World serves to illustrate the importance of maintaining the theory and practice of a politically independent police service. Accusations are flying that the reason the Metropolitan Police have not fully investigated the extended allegations of phone tapping is because of its perceived close links with News International. In reality there is probably a much more mundane explanation for what the Metropolitan Police has or has not investigated. However, that is not the point; there is a suspicion of lack of independence which is already adversely affecting public confidence in the integrity of the investigation. How much more is the risk of that when politically aligned Police and Crime Commissioners are in place?”³⁹

62. Pwysleisiodd Cymorth i Ferched Cymru, CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru i gyd y gall y niferoedd sy’n pleidleisio mewn etholiadau fod yn isel iawn, gan olygu y gallai Comisiynwyr gael eu hethol ar bleidlais isel iawn ac ar faterion sydd o bwys i gyfran fechan yn unig o’r etholwyr.

63. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol:

³⁷ CC(3) PR4.

³⁸ CC(3)-03-11, papur 2.

³⁹ CC(3) PR4.

“when the people of Wales realise the transformation that is occurring, and the impact it will have, I am confident that a large majority of people will want to turn out to vote. The significant interest in the crime data published on www.police.uk is testament to the fact given the opportunity people are very interested in how their streets are policed. The website received over 310 million hits in the first week. In addition, I would like to add that the Government is clear that the duty of Government is not to tell people who should represent them (that is the electorate’s prerogative). Recent elections show that we are right to trust people on these matters. We would, however, seek to encourage people from all backgrounds and walks of life to come forward and stand as PCCs [Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu].⁴⁰

64. O gofio maint ardaloedd heddlu, aeth Awdurdodau Heddlu Cymru ymlaen i egluro y gallai Comisiynwyr gael eu hethol, er enghraifft, ar faterion trefol a fyddai’n golygu bod y boblogaeth sy’n byw mewn ardaloedd eraill o dan anfantais. Yn wir, dadleuai Awdurdodau Heddlu Cymru fod:

“A single election once every four years where one candidate secures a majority is a very narrow view of democracy.”⁴¹

65. Roedd yr Ymgyrch yn erbyn Plismona Gwleidyddol yn cytuno â’r farn hon, gan ddweud y bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu:

“will be elected by the supplementary vote system... [a Commissioner] with huge power and responsibility, may have been returned without a conclusive electoral mandate.”⁴²

66. Awgrymodd Cymorth i Ferched Cymru y gallai cyfaddawd fod yn bosibl: “the Police Authorities could remain, but to ensure the democratic accountability that the Home Office is seeking, the Commissioner could be elected as Chair of the Authority.”⁴³ Deallwn fod hyn wedi’i awgrymu eisoes gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol,⁴⁴ ond ei fod wedi’i wrthod gan

⁴⁰ CC(3) PRB 10.

⁴¹ CC(3)-03-11 papur 2.

⁴² CC(3) PR4.

⁴³ CC(3)-02-11 papur 1.

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 12 Hydref 2010, para 31.

Lywodraeth y DU. Dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol:

“this would serve only to create a bureaucratic and invisible accountability model of police authorities in Wales that would not deal with the separation of roles and clarity that is needed between those scrutinising and those charged with governing. The cost of an elected Chair would be the same as electing a PCC [Police and Crime Commissioner] but the effectiveness of the model would be curtailed significantly by bureaucracy and lack of clarity. It would be the worst of all worlds. This would have resulted in a stark contrast to the strong accountability of the PCCs of England to the electorate within their force area. Policing is not devolved and so this is a contrast and an inequity that this Government could not allow to exist on such an important reserved matter”⁴⁵

67. Fodd bynnag, dywedodd CLILC:

“such a model would have addressed many of the concerns that have been identified and would have retained the positive relationship between the police and local authorities and would not have added an additional layer of bureaucracy and complexity to the system.”⁴⁶

68. Nodwyd gennym fodel arall wedi'i gynnig gan yr Ymgyrch yn erbyn Plismona Gwleidyddol:

“replace the councillor members with directly elected police authority members. It is accepted that many elected police authority members will represent established political parties, but there would be more chance of independent members being elected and in any case the likely balance of members across all parties would enforce a more consensus approach to policing. Above all the broad membership base would ensure greater representation across the diversity and size of a force area.”⁴⁷

69. Rydym yn pryderu y bydd pleidiau gwleidyddol, yn anorfod, yn gysylltiedig ag ethol Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, o dan

⁴⁵ CC(3) PRB 10

⁴⁶ CC(3)-3-11, Papur 1

⁴⁷ CC(3) PR 4

gynigion y Mesur. Rydym o'r farn bod awgrym cryf yn nhystiolaeth yr ymchwiliad hwn y gallai hyn arwain at oblygiadau pryderus o ran mynd i'r afael â materion plismona 'cudd', megis trais yn y cartref a therfysgaeth. Felly, buom yn ystyried argymell i Lywodraeth y DU y dylai atal ymgeiswyr sydd â chysylltiadau gwleidyddol rhag sefyll am swydd Comisiynydd. Fodd bynnag, credem y byddai'n anodd yn ymarferol cynnal unrhyw ddiffiniad o ymgeisydd sydd â 'chysylltiadau gwleidyddol'. Roeddem hefyd yn bryderus y gallai atal pleidiau gwleidyddol rhag cefnogi ymgeiswyr olygu'r posibilrwydd y byddai etholwyr yn pleidleisio dros Gomisiynwyr gyda llai o wybodaeth am yr hyn roeddent yn ei gynrychioli.

70. Rydym o'r farn bod gan Awdurdodau'r Heddlu yng Nghymru drefniadau democrataidd eisoes sy'n galluogi'r cyhoedd i ddwyn plismona yng Nghymru i gyfrif. Fodd bynnag, credwn y gellid gwella eto ar ymwybyddiaeth y cyhoedd o fecanwaith o'r fath.

Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i weithio gydag Awdurdodau Heddlu i ddatblygu ymagwedd gyson tuag at ymgysylltiad cymunedol a gweithio mewn partneriaeth. Dylai hyn adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd eisoes yng Nghymru, a gwella'r cyfleoedd i bobl leol ddylanwadu ar blismona o fewn y trefniadau presennol.

Effaith y mesur ar ymgysylltiad cymunedol

“the police authority is the bridge between the policing service and the communities that we serve.”⁴⁸

Cilla Davies, Cadeirydd Awdurdod Heddlu Gwent

71. Mae'r Mesur hefyd yn amlinellu gofynion eglur ar gyfer y Comisiynydd i ymgysylltu â'r cymunedau a gynrychiolir ganddo ac i ystyried blaenoriaethau a phryderon lleol wrth ddatblygu Cynllun yr Heddlu a Throseddu.

72. Yn yr un modd, mae'r Mesur yn gwneud yn eglur ei bod yn rhaid i Gomisiynydd gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am gyflawni'r amcanion heddlu a throseddu sydd wedi'u gosod allan yn y cynllun heddlu a throseddu. Dylai gwybodaeth hefyd fod ar gael

⁴⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 3 Chwefror 2011, para 79.

i'r cyhoedd i alluogi'r gymuned i asesu perfformiad y prif gwnstabl a'r Comisiynydd wrth atal troseddu ac anhrefn. Rhaid cyhoeddi hefyd wybodaeth yn ymwneud â staffio, cyfraddau tâl ac unrhyw roddion neu fenthyciadau a geir.

73. Er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau'r gymuned leol yn cael eu hystyried wrth lunio amcanion plismona lleol, rhaid i'r Comisiynydd hefyd ofyn barn y gymuned (a dioddefwyr troseddau) am gynlluniau drafft ar yr heddlu a throseddu a chynigion ar gyfer gwariant am y flwyddyn ariannol honno.

74. Credai Cymorth i Ferched Cymru y gallai'r ystyriaethau hyn gael effaith bositif ar ymgysylltiad cymunedol, gan ddweud:

“to a certain extent... the reforms may lead to people feeling that they can input into what is happening locally and having their views heard.”⁴⁹

75. Dywedodd Cymdeithas y Prif Swyddogion Heddlu (ACPO) Cymru ei bod yn croesawu “the specific provision within the Bill for obtaining views of victims of crime.”⁵⁰

76. Fodd bynnag, nododd Cymorth i Ferched Cymru hefyd fod dyletswydd statudol eisoes ar Awdurdodau Heddlu i ystyried barn y gymuned leol, ac i ymgysylltu â'r gymuned er mwyn clywed ei barn am faterion plismona,⁵¹ lefelau hyder y cyhoedd, ac a yw'r cyhoedd yn teimlo bod eu barn yn cael sylw.⁵² Aethant ymlaen i esbonio ei bod yn ofynnol hefyd i Awdurdodau Heddlu ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl, gan gynnwys grwpiau ar gyrion cymdeithas a'r henoed. Daeth Cymorth i Ferched Cymru i'r casgliad bod:

“these opportunities already give local communities the ability to significantly impact on local policing issues... instead of radically changing the present system it would be more beneficial to raise awareness of the functions that police authorities already have to engage with the public.”⁵³

⁴⁹ CC(3)-02-11, papur 1.

⁵⁰ CC(3) PR 1.

⁵¹ Deddf yr Heddlu 1996, adran 6(2)(aa) adran 96.

⁵² Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Heddlu (Ymgysylltiad Cymunedol ac Aelodaeth) 2010.

⁵³ CC(3)-02-11, papur 1.

77. Yn wir, meddai ACPO Cymru – ynghylch gofyniad y Mesur i Brif Gwnstabl wneud trefniadau i gael barn pobl ym mhob cymdogaeth:

“there is nothing new for us in this proposal as we and our predecessor Chief Constables have over several years pursued strategies and developed structures which have been aimed at improving our engagement with our many diverse communities.”⁵⁴

78. Dywedodd ACPO Cymru nad oeddent, oherwydd gwaith o’r fath, yn ystyried “that the generic criticism of Police Authorities applied to Wales.”⁵⁵

79. Tynnodd CLILC sylw at rôl cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda’i Gilydd (PACT) ar lefel ward a oedd yn gweithredu’n llwyddiannus ledled Cymru i alluogi preswylwyr i fynegi eu pryderon a’u barn wrth yr Heddlu, Awdurdodau Lleol ac asiantaethau sy’n bartneriaid. Nodwyd hefyd y gofyniad ar gynghorau i ymateb i alwadau’r gymuned i weithredu ar unrhyw fater yn ymwneud â throseddu ac anhrefn gan dystion Cymorth i Ferched Cymru a CLILC fel dull sydd ar gael i’r cyhoedd i fynegi eu barn am y modd y dylai eu cymdogaethau gael eu plismona.

80. Yn yr un modd, nododd ACPO Cymru:

“a number of initiatives including setting up dedicated Victim Care Units and undertaking detailed research in partnership with the Universities Police Science Institute to capture the views of witnesses and victims. As a result victim satisfaction across the force area has improved from 70% satisfaction to 90% satisfaction over the two period. In addition, the four police forces in Wales in partnership with the Crown Prosecution Service are currently undertaking a pan Wales review with the key aim of enhancing victim care.”⁵⁶

81. Nododd CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru hefyd bryderon difrifol ynghylch y gofyniad yn y model arfaethedig ar gyfer Comisiynwyr i gyhoeddi penderfyniadau dim ond lle bydd y penderfyniad hwnnw’n rhan o adroddiad sy’n ofynnol gan Banel

⁵⁴ CC(3) PR 1.

⁵⁵ CC(3) PR 1.

⁵⁶ CC(3) PR 1.

Heddlu a Throsedd. Dywedodd Awdurdodau Heddlu Cymru, er bod Awdurdodau Heddlu:

“operate on an inclusive basis and votes are rare, our decisions are taken in public on the basis of published papers. In contrast, a Commissioner may not be at all transparent. Policies are likely to emerge from discussions with the Chief Constable without published papers or a public debate and be seen by the public as difficult to influence and the process as opaque.”⁵⁷

82. Yr oedd yr Ymgyrch yn erbyn Plismona Gwleidyddol hefyd yn pryderu am y diffyg tryloywder posibl y byddai'r Mesur yn ei achosi, gan ddweud:

“it is difficult to see how a [Police and Crime Commissioner], legally a corporate sole, can be subject to the same degree of public scrutiny and accountability... In practice [Police and Crime Commissioners] will have to come to political deals with the majority parties represented in the new [police and crime] panels. This will smack of deals done in smoke-filled rooms rather than an openly democratic and accountable process.”⁵⁸

83. Awgrymodd CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru y gallai'r diffyg tryloywder hwn danseilio nod y Llywodraeth o wella atebolrwydd a hyder y cyhoedd yn yr heddlu, drwy wneud y broses benderfynu yn llai tryloyw.

84. Nododd Cymorth i Ferched Cymru ac Awdurdodau Heddlu Cymru hefyd nad yw'n ymddangos bod y Mesur yn rhoi llawer o gyfle i gymunedau lleol ddwyn eu Comisiynwyr i gyfrif ac i'w diswyddo rhwng etholiadau, waeth beth yw eu perfformiad neu ganfyddiad y cyhoedd ohonynt.

85. Roedd tystiolaeth gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) yn awgrymu bod cwynion yn erbyn yr heddlu yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth wrth yrru perfformiad yr heddlu ymlaen ac annog yr heddlu i ymgysylltu â chymunedau lleol. Roedd yn argymhell y dylai Comisiynwyr ymgysylltu â'r math o faterion sy'n cael eu codi mewn cwynion er mwyn cael dealltwriaeth fwy trylwyr o bryderon lleol. Tynnwyd sylw gan IPCC hefyd at y buddiannau a ddaw i heddluoedd

⁵⁷ CC(3)-3-11, papur 2.

⁵⁸ CC(3) PR 4.

drwy ledaenu'r hyn a ddysgir o cgyntion ac ymchwiliadau ar lefel genedlaethol.

86. Rydym o'r farn y byddai'n werthfawr pe bai rhagor o wybodaeth ar gael yn dryloyw i'r cyhoedd am lefelau troseddu ac am lwyddiant yr heddlu wrth fynd i'r afael â materion o'r fath, p'un a gaiff cynigion y Mesur eu rhoi ar waith yng Nghymru ai peidio. Felly, rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth y DU y bydd:

“the Commissioner will be placed under a duty to publish information which will help the public to understand what is happening in their area and to see how he is tackling the pressures and demands faced in taking strong and proportionate action against all crime types.”⁵⁹

87. Yn y cyd-destun hwn, rydym hefyd yn croesawu menter Llywodraeth y DU yn ddiweddar i gyflwyno'r wefan www.police.uk i roi mwy o wybodaeth am weithgarwch yr heddlu, lefelau troseddu a llwyddiannau'r heddlu.

Cymhwyster Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

88. Dywed y Mesur y bydd swyddogaethau craidd Comisiynydd yr un fath â rhai Awdurdodau Heddlu presennol. Bydd dyletswyddau sylfaenol yn cynnwys cyhoeddi cynllun yr heddlu a throseddu, pennu'r amcanion heddlu a throseddu yn lleol, a phennu'r praesept lleol (a fyddai felly'n caniatáu defnyddio'r dreth gyngor i gyllido'r heddlu) a chyllideb flynyddol yr heddlu yn dilyn trafodaeth gyda'r prif gwnstabl.

89. O dan y Mesur, bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, felly, yn gyfrifol am ddwyn prif gwnstabl eu heddlu i gyfrif am eu holl gyfrifoldebau, er y bydd y prif gwnstabl yn cadw'r cyfrifoldeb am reolaeth weithredol yr heddlu. Bydd prif gwnstablaid hefyd yn cael yr hawl i benodi eu tîm o uwch reolwyr (mater y mae'r Awdurdod Heddlu penodol yn gyfrifol amdano ar hyn o bryd).

90. O dan y Mesur, rhaid i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu benodi prif weithredwr a phrif swyddog cyllid, a gall benodi staff arall.

91. Mae'r Mesur hefyd yn diwygio deddfwriaeth llywodraeth leol, sy'n golygu y bydd gan y prif weithredwr a'r prif swyddog cyllid yr un pwerau a dyletswyddau â'u swyddogion cyfatebol mewn awdurdodau

⁵⁹ CC(3) PRB 10.

lleol. Yn fwyaf arbennig, bydd y prif swyddog cyllid yn cael ei ddynodi'n awtomatig yn swyddog monitro, a bydd dyletswydd arno i gynhyrchu adroddiad ar unrhyw ymddygiad anghyfreithlon neu gamweinyddu gan gomisiynydd yr heddlu a throseddu. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi pŵer cyffredinol i gomisiynydd yr heddlu a throseddu i wneud unrhyw beth gyda'r bwriad o'i alluogi neu ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau.⁶⁰

92. Gall y comisiynydd ar gyfer ardal heddlu bennu grant lleihau troseddu ac anhrefn i unrhyw berson a fydd, ym marn y comisiynydd, yn sicrhau bod troseddu ac anhrefn yn gostwng yn ardal yr heddlu, neu'n cyfrannu at wneud hynny.

93. Mynegwyd pryderon gan nifer o dystion y byddai galluoedd Comisiynwyr yr Heddlu yn fwy cyfyngedig na galluoedd Awdurdod Heddlu. Soniodd Awdurdodau Heddlu Cymru, er enghraifft, am:

“concerns regarding the capacity of one individual to undertake the appropriate level of scrutiny [of a Chief Constable] which is currently undertaken by 17-19 members.”⁶¹

94. Roedd CLILC hefyd yn pryderu am hyn. Cydnabu CLILC y byddai'r Comisiynydd, yn ymarferol, yn amlwg yn gallu dirprwyo swyddogaethau i unigolion eraill, ond awgrymwyd y byddai'r realiti hwn “undermines the directly elected premise behind the Commissioner model.”⁶²

95. Roedd Cymorth i Ferched Cymru hefyd yn pryderu hefyd am gymhwyster un unigolyn i ymgysylltu â phob cymuned a'u cynrychioli. Adleisiodd CLILC y farn hon gan ddweud na all:

“one individual [can] effectively engage with, or seen to be accessible to local people and communities in such vast and diverse areas.”⁶³

96. Yn yr un modd, dywedodd yr Ymgyrch yn erbyn Plismona Gwleidyddol:

⁶⁰ Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2010-2011, Nodiadau Esboniadol.

⁶¹ CC(3)-03-11, papur 2.

⁶² CC(3)-03-11, papur 1.

⁶³ CC(3)-03-11, papur 1.

“to be able to properly represent such large and culturally diverse areas is almost certainly beyond the capability of a single individual, yet this is what is required by the new bill.”⁶⁴

97. Soniodd Cymorth i Ferched Cymru hefyd eu bod yn bryderus nad oedd y model Comisiynydd yn cynnig digon o gymorth i Gomisiynwyr, gan ddatgan:

“one of the strengths of police authorities is the support that members are able to give each other in holding senior police officers to account. The Police Commissioners are likely to be isolated in comparison, without even having any deputies.”⁶⁵

A yw'r model Comisiynydd yn rhoi gormod o bŵer yn nwylo un person?

98. Roedd nifer o dystion yn pryderu bod y model Comisiynydd yn rhoi gormod o rym a chyfrifoldeb yn nwylo un person. Honnodd Cymorth i Ferched Cymru fod

“the amount of power that will be placed on one individual is unprecedented in British Constitutional arrangements and is extremely risky.”⁶⁶

99. Adleisiwyd y pryderon hyn gan CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru, a ddywedodd:

“in no other public service does a single individual possess as much power as is proposed for the Commissioner. Nor is there an equivalent to the proposed relationship between the Commissioner and the Chief Constable. The lack of clarity over what is meant by operational independence and the fact that the Commissioner has the power to fire the Chief Constable (even if all members of the Panel believe this is inappropriate) is a recipe for disaster.”⁶⁷

⁶⁴ CC(3) PR4.

⁶⁵ CC(3)-02-11, papur 1.

⁶⁶ CC(3)-02-11, papur 1.

⁶⁷ CC(3)-03-11, papur 2.

2. Cynlluniau yr Heddlu a Throseddu

100. Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, dywed y Mesur y bydd yn ofynnol i bob Comisiynydd gyhoeddi cynllun yr heddlu a throseddu i bennu cyfeiriad strategol yr heddlu.

101. Ofnai nifer o dystion, pe na bai Comisiynydd etholedig yn gynrychioliadol o gymuned amrywiol, y gallai hyn gael effaith ar y blaenoriaethau plismona lleol a fyddai wedyn yn cael eu hamlinellu yng Nghynllun yr Heddlu a Throseddu.

102. Er enghraifft, awgrymodd Cymorth i Ferched Cymru y byddai'r ymgeisydd gwrywaidd, gwyn nodweddiadol dosbarth canol am swydd comisiynydd yn llai tebygol o roi blaenoriaeth i faterion merched, gan gynnwys trais yn y cartref. Gallai hefyd gael effaith negyddol ar grwpiau cydraddoldeb eraill, megis grwpiau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig a Lesbiaid, Hoywon a Phobl Drawsrywiol (LGBT). Rhoddodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol sylw i'r pryderon hyn yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, gan honni y bydd:

“PCCs [Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu] will be responsible for the totality of policing in their local area this includes ‘hidden’ crimes such as domestic violence and hate crime - which are crimes the Government takes very seriously. Not only have we created a duty in the Bill for the PCC [Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu] to consult and get the views of the community on policing but we have introduced a specific duty to consult with victims of crime. This is particularly significant when it comes to ‘hidden’ crimes such as domestic violence or hate crime, we must ensure that the victims have a voice and are able to influence how these crimes are dealt with, not only to improve the service they get but also to help prevent others from becoming victims. The office of Chief Constable requires that all crimes in the local area are dealt with effectively and the PCC will be there to ensure the Chief Constable performs this function to the best of their abilities.”⁶⁸

103. Er hynny, dywedodd Cymorth i Ferched Cymru, pe bai Comisiynwyr yn dymuno cael eu hailethol, y byddent yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar faterion ‘poblogaidd’, megis ymddygiad

⁶⁸ CC(3) PRB 10.

gwrthgymdeithasol, yn hytrach nag ar faterion ‘cudd’, megis trais yn erbyn merched. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru fod:

“several forms of VAW [Violence Against Women] which are prevalent in Wales are largely BME [Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig]-specific, for example female genital mutilation (FGM), "honour"-based violence and forced marriage. Due to cultural expectations, these crimes are notoriously underreported, and statistics for these crimes therefore grossly under-represent their prevalence. WWA is concerned that the lack of victims disclosing their experiences to statutory services will make Commissioners think that these crimes are not a problem in their area... WWA is concerned that there will be a real risk that someone who has been popularly elected will be reluctant to make unpopular but perhaps necessary decisions. WWA sees a risk that, for example, anti-social behaviour will be prioritised over and above the large proportion of work that police do – which may be less visible, but which is nonetheless key to crime prevention or detection – such as serious organised crime, domestic abuse, terrorism etc. If an elected Commissioner wishes to ensure they are re-, the logical conclusion may be to divert funds from these ‘behind the scenes’ decisions to frontline visible policing. This may not be the best way to keep the community safe.”⁶⁹

104. Ategwyd y farn hon gan gynrychiolwyr Awdurdodau Heddlu Cymru, a ddywedodd, ar fater trais yn y cartref yn benodol, y bydd:

“operational responsibility for policing will remain with Chief Constables and as such, the Welsh Police Forces’ commitment to tackling violence against women and girls both individually and in partnership is unlikely to change. However, the Commissioner will have a key role in setting the local policing plan and priorities and as such there is a potential risk should a Commissioner not see this issue as a priority.”⁷⁰

105. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Awdurdodau Heddlu Cymru:

⁶⁹ CC(3)-02-11, papur 1.

⁷⁰ CC(3)-03-11, papur 2.

“the local policing plan could disappear, because a person could, perhaps, be elected on a ticket to do something different. For example, if they were elected on a pledge to get rid of binge drinking, antisocial behaviour and speeding, their emphasis is going to be on those things, so what happens to domestic violence, drug-related issues and the trafficking of children? Those are issues that people probably do not put at the top of their agendas.”⁷¹

106. Gallai hyn, yn ôl Cymorth i Ferched Cymru, arwain at ‘loteri cod post’ mewn cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr camdriniaeth, oherwyddbyddai materion troseddu ac anhrefn mwy ‘poblogaidd’ yn cael blaenoriaeth ariannol. Roeddent yn pwysleisio y byddai canlyniadau hyn yn bellgyrhaeddol, ac aethant ymlaen i egluro bod pobl sy’n dioddef trais yn y cartref yn aml yn gorfod symud o’r ardal lle maent yn byw i gymunedau newydd, a bod angen llawer o gymorth arnynt i gadw’n ddiogel. Dadleuent ei bod yn hanfodol, felly, darparu gwasanaeth cyson ym mhob un o’r pedair ardal heddlu yng Nghymru.

107. Ymhelaethodd Awdurdodau Heddlu Cymru ar y pwynt hwn, a chrybwyllwyd y pwynt o wneud yr heddlu’n fater gwleidyddol. Nodwyd y byddai Comisiynydd wedi ei ethol drwy bleidlais boblogaidd a’i benodi gyda mandad etholiadol yn fwy tebygol o ganolbwyntio ar faterion yn effeithio ar ‘y mwyafrif’, megis ymddygiad gwrthgymdeithasol. Pwysleisiodd nifer o dystion na fyddai Comisiynwyr yn rhoi blaenoriaeth i faterion nad yw’r cyhoedd un ai’n ymwybodol ohonynt neu nad ydynt yn effeithio arnynt yn eu bywyd pob dydd, megis gweithgareddau gwrth-derfysgaeth, er enghraifft. Rhoddodd yr Ymgyrch yn erbyn Plismona Gwleidyddol sylw i’r mater hwn hefyd gan honni y byddai cynigion y Mesur yn golygu:

“the chief constable’s role becomes secondary and thereby capable of being compromised by the new power context created by the power the PCC [Comisiynydd Heddlu a Throseddu] holds over the chief constable’s retention of office. The power of creating the policing plan shifts from the professional to the political. The context of policing in a force

⁷¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 3 Chwefror 2011, paragraff 110.

area thereby is shaped by political rather than policing considerations.”⁷²

108. Fodd bynnag, honnai ACPO Cymru:

“The Bill makes clear that operational matters will remain the responsibility of the Chief Constable and staff working to the Chief Constable and in this respect it will not lead to any changes in the on-going commitment we have to working with our partners to tackle violence against women and to improve their safety. We do not therefore consider that the appointment of a PCC [Comisiynydd Heddlu a Throsedd] would impact on this strategy from a purely policing or partnership perspective.”⁷³

109. Yn yr un modd, honnodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol na fyddai'r Mesur yn:

“remove the operational independence of the police service nor impinge of the office of constable. Rather the Bill sets the scene for an elected public office which is more open and transparent and fosters a constructive and effective working relationship with the chief constable.”⁷⁴

110. Cododd Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr hefyd y pwynt fod angen ymagwedd Cymru gyfan ar bob strategaeth Cymru gyfan. Gall y cynigion i gael Comisiynwyr ar wahân a fyddai'n pennu agendâu a blaenoriaethau gwahanol yn y gwahanol heddluoedd yng Nghymru danseilio mentrau sy'n cael eu gweithredu gan bartneriaid presennol ar hyn o bryd, yn ôl Ffederasiwn yr Heddlu.

111. Rydym yn credu – p'un a gaiff cynigion y Mesur eu sefydlu'n awr ynteu rywbyrd yn y dyfodol – y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru adolygu'r polisïau hynny sy'n ddibynnol i raddau helaeth ar weithgarwch yr heddlu. Yn fwyaf arbennig, rydym yn awyddus y bydd angen i'r strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' adlewyrchu'r hinsawdd wleidyddol sy'n datblygu ac sy'n cael ei sefydlu gan Lywodraeth y DU.

⁷² CC(3) PR 4.

⁷³ CC(3) PR 1.

⁷⁴ CC(3) PRB 10.

Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisïau'n briodol, gan gynnwys y Strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, i sicrhau bod modd cyflawni ac integreiddio'u hamcanion yn yr hinsawdd polisi a fydd yn deillio o fersiwn derfynol y Mesur.

112. Rydym o'r farn hefyd y byddai'n werthfawr i Lywodraeth y DU roi sylw i'r pryderon a fynegwyd gan ein tystion y byddai sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn arwain at 'loteri cod post' o ran gwasanaethau. Rydym yn cydnabod y bydd yn rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu roi sylw i faterion lleol drwy gyfrwng dulliau amrywiol, ond credwn y gall Llywodraeth y DU barhau i gynnig cyfeiriad strategol clir i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol.

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i ddarparu canllawiau statudol clir i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar flaenoriaethau cenedlaethol.

3. Panelau yr Heddlu a Throsedd

“you are adding an additional tier of bureaucracy and we do not think that the panel has the right level of powers to scrutinise the commissioner”⁷⁵

Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder
Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

113. Mae'r Mesur hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu Panelau yr Heddlu a Throseddau ar gyfer pob ardal heddlu. Bydd y Panelau'n cynnwys deg cynghorydd lleol, dau aelod annibynnol wedi'u cyfethol, ac yng Nghymru cynrychiolydd Llywodraeth Cymru a benodir gan Weinidogion Cymru. Bwriedir i'r Panelau graffu ar waith y Comisiynwyr yn ogystal â'u cynghori.⁷⁶

114. Dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol wrthym:

“The Panel provides a robust overview at force level of decisions made by the Commissioner, ensuring that the system is one of good governance. Overall, the system will be far less bureaucratic than the present one.”⁷⁷

115. Fodd bynnag, roedd CLILC, Awdurdodau Heddlu Cymru a Cymorth i Ferched Cymru yn pryderu y byddai'r pwerau cyfyngedig a roddid i'r panelau yn cyfyngu eu gallu i graffu'n effeithiol ar waith y Comisiynydd ac i'w ddwyn ef/hi i gyfrif. Er enghraifft, meddai Cymorth i Ferched Cymru:

“the Bill does not clearly state what opportunity the Police and Crime Panels will have to hold Police Commissioners to account. Under the current proposals, the Police and Crime Panels do not have the right balance of powers and responsibility to provide robust checks and balances to a Police Commissioner and will not be strong enough to scrutinise and hold a Police Commissioner to account. It seems the Panels will

⁷⁵ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 3 Chwefror 2011, Para 13

⁷⁶ Ar 8 Chwefror 2011, pleidleisiodd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar ddarpariaethau'n ymwneud â Phanelau Heddlu a Throseddau yn Rhan 1 Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol. Trafodir hyn yn fanylach ym mhennod 6.

⁷⁷ CC(3) PRB 10.

have very little say over the decisions made by a Police Commissioner.”⁷⁸

116. Cafwyd sylwadau gan CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru am natur ‘wrthwynebus’ y berthynas rhwng y Comisiynydd a Phanel yr Heddlu a Throsedd. Fel y nododd cynrychiolwyr Awdurdodau Heddlu Cymru, mae’r berthynas yn seiliedig ar dyndra ac nid yw’n ddull effeithiol i weithio mewn partneriaeth. Dywedodd Awdurdodau Heddlu Cymru hefyd fod y berthynas wrthwynebus hon yn deillio o bwerau cyfyngedig y Panel, gan ychwanegu:

“not robust enough to challenge the Commissioner on fundamental issues without recourse to reporting dissatisfaction to the public or issuing a veto (on precepts and chief constable appointments). This could lead to an adversarial relationship between the Commissioner and the Panel. There is real concern that such public disagreements will result in dissatisfaction levels in the police rising and the public losing confidence in local policing.”⁷⁹

117. Os na dderbynnir ein Prif argymhelliad, credwn ei bod yn hanfodol cyhoeddi canllawiau a fydd yn annog Comisiynwyr a Phanelau’r Heddlu a Throsedd i gydweithredu. Wrth ddod i’r casgliad hwn, rydym wedi sylwi bod pryderon wedi’u mynegi y gallai’r:

“current system can create unintended conflicts of interest if the current structure is sharing office space and a coffee machine with the chief constable’s office.”⁸⁰

118. Fodd bynnag, rhagwelwn na fyddai canllawiau ar gydweithredu yn atal Panelau’r Heddlu a Throsedd rhag craffu ar waith Comisiynwyr, ond y byddai’n rhoi mwy o bwyslais ar ei rôl o gynghori’r comisiynydd, a’r comisiynydd yn ymateb yn bositif drwy ddilyn y cyngor hwnnw. Roeddem yn falch, felly, bod y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol wedi dweud y bydd:

“the Panel will be a ‘critical friend’ of the Commissioner and they should work together in a supportive and constructive

⁷⁸ CC(3)-02-11, papur 1.

⁷⁹ CC(3)-03-11, papur 2.

⁸⁰ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 3 Chwefror 2011, para 120 (Mark Isherwood AC).

manner as well as be able to provide challenge and scrutiny when needed.”⁸¹

119. Rhagwelwn y byddai'r berthynas adeiladol hon yn golygu y byddai'r Comisiynydd a'r Panel yn mabwysiadu rôl gyfartal, ar lefel ymarferol, o ran penodi a / neu ddiswyddo'r Prif Gwnstabl, pennu'r praesept a chytuno ar flaenoriaethau strategol drwy Gynllun Lleol ar gyfer yr Heddlu a Throseddau.

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i argymhell bod Panelau yr Heddlu a Throseddau yn cael eu gweithredu mewn modd sy'n seiliedig ar ddull cydsyniol â'r Comisiynydd, a'r ddwy ochr yn meddu ar bwerau cyfartal. Rhagwelwn y byddai hyn yn golygu y byddai'r Comisiynydd a'r Panel yn ymgymryd â rôl gyfartal wrth benodi neu ddiswyddo'r Prif Gwnstabl, pennu'r praesept a chytuno ar flaenoriaethau strategol drwy Gynllun Lleol ar gyfer yr Heddlu a Throseddau.⁸²

Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Banel yr Heddlu a Throseddau

120. Fel y nodwyd eisoes, mae Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn datgan y dylai Panelau yr Heddlu a Throseddau gynnwys un aelod wedi'i benodi gan Weinidogion Cymru o blith y cynrychiolwyr etholedig lleol. Yn yr atodlen hon mae “cynrychiolydd etholedig lleol” (yn achos panel yr heddlu a throseddau ar gyfer ardal heddlu) yn golygu unrhyw un o'r canlynol:

“(a) person sy'n aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer etholaeth y Cynulliad sy'n dod o fewn rhanbarth yr heddlu'n gyfan gwbl neu'n rhannol;

(b) person sy'n aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer ranbarth etholiadol y Cynulliad ac sydd â'i ardal yr un fath â'r ardal heddlu neu sydd wedi ei chynnwys ynddi;

⁸¹ CC(3) PRB 10.

⁸² Yr oedd dau Aelod o'r Pwyllgor, Mark Isherwood AC a Mohammad Ashgar AC, yn gwrthwynebu cynnwys 'Argymhelliad 4' yr adroddiad pan gytunwyd ar yr adroddiad ar 17 Chwefror 2011. Dywedodd Sandy Mewies AC, Lynne Neagle AC, Val Lloyd AC (yn dirprwyo ar ran Joyce Watson AC), Rosemary Butler AC (yn dirprwyo ar ran Alun Davies AC), Dai Lloyd AC, Bethan Jenkins AC a Veronica German AC (yn dirprwyo ar ran Eleanor Burnham AC) eu bod yn cefnogi cynnwys 'Argymhelliad 4' yn yr adroddiad hwn.

(c) person sy'n aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol ac sydd â'i ardal yr un fath â'r ardal heddlu neu sydd wedi'i chynnwys ynddi;

(d) person sy'n faer etholedig ar weithrediaeth y maer a'r cabinet (o fewn ystyr Rhan 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000) mewn cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol ac sydd â'i ardal yr un fath â'r ardal heddlu neu sydd wedi'i chynnwys ynddi.”

121. Deallwn fod Nodiadau Esboniadol y Mesur, felly, yn anghywir wrth ddweud y dylai panelau gynnwys ‘an additional member appointed by Welsh Ministers from among members of the National Assembly for Wales.’

122. Cyfeiriodd Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr a Cymorth i Ferched Cymru hefyd at rôl bwysig cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar y panelau. Byddai'r gynrychiolaeth hon, yn ôl y tystion, yn hwyluso cysylltiadau rhwng y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, a gallai hefyd ganiatáu ymagwedd fwy cyfannol wrth weithredu strategaethau Cymru gyfan. Awgrymodd Cymorth i Ferched Cymru y dylai'r cynrychiolydd hwn fod yn Weinidog, gan ddweud:

“Ministers then need to feedback this information to the Social Justice and Local Government Minister... In our experience, without having a lead person in the Assembly Government taking responsibility for a certain area of work, it is difficult to obtain certain information and to hold Ministers to account.”⁸³

123. Fodd bynnag, awgrymodd Awdurdodau Heddlu Cymru a CLILC mai mater i Weinidogion Llywodraeth Cymru yw enwi cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Banelau yr Heddlu a Throseddau⁸⁴ Roedd ACPO Cymru yn cytuno fel hyn:

“Welsh Assembly Government Ministers should have the freedom to choose the most appropriate person for the role and that their choice should not be restricted to locally elected persons. For example, Police Authorities have benefited from independent members who have brought with them a range of skills, expertise and experience beyond that which elected

⁸³ CC(3)-02-11, papur 1.

⁸⁴ CC(3)-03-11, papur 1.

members bring. We believe that the Ministerial choice should not be fettered.”⁸⁵

124. Rydym o’r farn ei bod yn fuddiol i Weinidogion Cymru gael rhywfaint o hyblygrwydd yn eu dewis o gynrychiolydd ar Banelau yr Heddlu a Throseddu.

⁸⁵ CC(3) PR 1.

4. Gweithio mewn partneriaeth

125. Dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol wrthym:

“Community Safety Partnerships will continue to play an important role cutting crime when Commissioners come into place in 2012. They will be able to provide information about their local areas to the Commissioner which will enable them to make the most out of their force wide role.”⁸⁶

126. Mae darpariaethau yn y Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiynwyr a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol (PDCau) gydweithredu â'i gilydd i leihau troseddu ac anhrefn yn eu hardaloedd heddlu. Mae'r Mesur yn estyn rhai darpariaethau (sy'n weithredol yn Lloegr yn unig ar hyn o bryd) i Gymru. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol gyflwyno adroddiad ar unrhyw fater sy'n ymwneud â'u swyddogaethau, ac i hwyluso PDCau i uno os bydd y PDCau a'r Comisiynydd dan sylw yn cytuno. Yng Nghymru, bydd y darpariaethau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol cael cytundeb Panel yr Heddlu a Throseddu.

127. Cafwyd cytundeb yn nhystiolaeth y tystion i awgrymu bod mater gweithio mewn partneriaeth yn arbennig o berthnasol i Gymru o safbwynt y cyd-destun datganoledig y mae diogelwch cymunedol yn rhan ohono. Yn fwyaf arbennig, tynnwyd sylw gan Cymorth i Ferched Cymru, CLILC, Ffederasiwn yr Heddlu ac Awdurdodau Heddlu Cymru at gryfderau'r partneriaethau sydd wedi eu ffurfio yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael â throseddu ac i wella diogelwch cymunedol. Er enghraifft, dywedodd Awdurdodau Heddlu Cymru:

“community safety is delivered by a wide range of agencies over which the Commissioner will have no power. As is stated above, the Commissioner will have power over the CSPs [Partneriaethau Diogelwch Cymunedol], although the extent

⁸⁶ CC(3) PRB 10.

and benefit of this (particularly to partnership working) is unclear.”⁸⁷

128. Awgrymodd Ffederasiwn yr Heddlu:

“the Bill takes no account of existing relationships and partnerships as they affect Wales, and the well founded interaction of Welsh Assembly Government, Welsh Local Government Association, Police Authorities Wales, Community Safety Partnerships, Police Federation of England and Wales, Association of Chief Police Officers and the public.”⁸⁸

129. Dywedodd CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru fod perygl y gallai'r cynigion wanhau'r partneriaethau cryf sydd wedi eu sefydlu eisoes ledled Cymru rhwng yr Heddlu ac Awdurdodau Lleol i gyflawni amcanion diogelwch cymunedol. Yn fwyaf arbennig, dywed yr adroddiad yn ddiweddar gan HMIC ar lywodraethu'r heddlu:

“most police authorities are exploring opportunities to work with local strategic partnerships, business and voluntary organisations (16 out of 22 police authorities). It was found to be increasingly the case, as the inspection programme progressed, that police authorities were able to more clearly describe how this activity contributed to community safety outcomes in their area.”⁸⁹

130. Roedd y newid posibl yn nyraniad cyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer troseddau a diogelwch cymunedol hefyd yn achos pryder i nifer o dystion. Bydd cyllid a arferai gael ei ddyrannu i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn awr yn cael ei roi'n uniongyrchol i'r Comisiynydd. Nododd CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru y gall hyn danseilio trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac y gallai gyfyngu'r gwaith y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn gallu ei wneud, gan ddweud:

“operational responsibility for policing will remain with Chief Constables and as such, the Welsh Police Forces' commitment to tackling violence against women and girls both individually and in partnership is unlikely to change. However, the

⁸⁷ CC(3)-03-Papur 2.

⁸⁸ CC(3) PRB 2.

⁸⁹ HMIC: *Police Governance in Austerity. HMIC thematic report into the effectiveness of police governance.* Hydref 2010.

Commissioner will have a key role in setting the local policing plan and priorities and as such there is a potential risk should a Commissioner not see this issue as a priority. This risk could be off-set with national direction from the Home Office - which is committed to the issue - it does raise questions, however, about the balance of power between the chief constable, commissioner and central government in determining policing priorities... CSPs [partneriaethau Diogelwch Cymunedol] have a key role in delivering The Right to be Safe and yet there is a danger that Home Office funding could be allocated directly to Commissioners rather than CSPs... this shift in the allocation of funding could undermine partnership working and the sharing of resources amongst partners.”⁹⁰

131. Roedd ACPO Cymru yn cytuno â'r sylwadau hyn, gan nodi bod:

“existing funding streams which support CSP’s [partneriaethau Diogelwch Cymunedol] will in the future become subject to spending decisions made by the Police and Crime Commissioner who will be able to award Crime and Disorder Grants. Whilst we do not know how this money would be spent, we are concerned that monies needed to support CSP’s should be maintained and we made this point strongly in our submission via ACPO to the UK Government. Should this funding be lost to the CSP’s, then local authorities will be hard pressed to make up the deficit at a time of reducing budgets.”⁹¹

132. Cydnabu'r Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Cymdeithasol y pryderon hyn, gan ddweud:

“The funding arrangements for the next few years have yet to be finalised. However, they will include provision for PCCs [Comisiynwyr Heddlu a Throsedd] to have a budget to support their role in commissioning local services for community safety. The Commissioner will have a mandate to address community safety priorities identified by the electorate and they will have a budget to support this. This budget will be distributed by the Commissioner in the form of crime and disorder reduction

⁹⁰ CC(3)-03-11 papur 1 a phapur 2.

⁹¹ CC(3) PR1.

grants to local organisation or individuals which could include the CSPs and the statutory partners.”⁹²

133. Yn fwy cyffredinol, awgrymodd ACPO Cymru y gellid gwneud y canlynol pan ddaw’r Mesur:

“a National Policing Board for Wales could be established, made up of the four Chief Constables, the four PCC’s [Comisiynwyr Heddlu a Throseddu] and chairs of the Police and Crime Panels, to continue the collaborative agenda at force, regional or national level as appropriate. In effect, this Board would replicate the existing Police Authorities of Wales arrangement which has worked so well and has enabled Wales to be viewed as a national leader of police initiated collaboration. It would help to broaden the PCC [Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu] perspective and enable strategic collaborative developments such as the Criminal Justice Board for Wales to continue.”⁹³

134. Roedd y potensial ar gyfer dryswch a dyblygu yn nhrefniadau llywodraethiant materion diogelwch cymunedol yng Nghymru hefyd yn achos pryder i dystion. Mae gan Awdurdodau Lleol Bwyllgorau Craffu ar Droseddu ac Anhrefn ar waith i graffu ar waith partneriaethau ar ran pwyllgorau lleol, a dywedodd CLILC fod perygl dyblygu gwaith o’r fath.⁹⁴

135. Teimlai CLILC nad oedd yn amlwg sut y bydd y trefniadau hyn yn parhau i weithio o gofio lefel y craffu gan y Comisiynydd ar waith partneriaethau. Cyfeiriodd Awdurdodau Heddlu Cymru hefyd at bosibilrwydd gwrthdaro yn deillio o rôl Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wrth bennu eu Cynlluniau Diogelwch Cymunedol (yn seiliedig ar dystiolaeth o’u hasesiadau strategol) a’r cynllun heddlu a throseddu lleol a bennir gan y Comisiynydd.

136. Ceisiodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol ddelio â’r pryderon hyn, gan ddweud:

“we are putting in place a number of mechanisms to ensure that productive discussion and challenge can take place between both parties. The collective aim of both bodies is to reduce crime and disorder in their local areas therefore we

⁹² CC(3) PRB 10.

⁹³ CC(3) PR 1.

⁹⁴ CC(3)-03-11, papur 1.

expect them to work together to achieve this. There is nothing that would prevent a Councillor sitting on the Local Authority Crime and Disorder Scrutiny Committee from sitting on the Police and Crime Panel – we expect local authorities as they decide who represents them at the Panel to make these decisions.”⁹⁵

137. Rydym o’r farn ei bod yn hanfodol i Gomisiynwyr a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol allu cydweithredu yng Nghymru. Yn amlwg, os caiff ein Prif argymhelliad ei argymell a’i weithredu’n llwyddiannus, bydd hyn yn rhoi amser ychwanegol i ddatblygu canllawiau ar sefydlu proses gyson ar gyfer cydweithredu o’r fath, ac i egluro sut y byddai trefniadau llywodraethiant dros faterion diogelwch cymunedol yn gweithio yng nghyd-destun datganoli.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i’w pherswadio i ddarparu canllawiau ar sefydlu proses gyson, fel y bydd Comisiynwyr a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn sicrhau bod eu hagendâu a’u hamcanion strategol eu hunain wedi’u halinio.

Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i egluro sut y bydd trefniadau llywodraethiant lleol dros faterion diogelwch cymunedol yn gweithio yn y cyd-destun Cymreig, yn dilyn unrhyw newidiadau yn deillio o’r Mesur.

⁹⁵ CC(3) PRB 10.

5. Goblygiadau Ariannol y Mesur

138. Roedd CLILC, Awdurdodau Heddlu Cymru, Cymorth i Ferched Cymru a Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr i gyd yn cytuno bod amseriad y Mesur yn amhriodol o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, a nodwyd y bydd gan ddarpariaethau a amlinellir yn y Mesur oblygiadau ariannol difrifol i bartneriaid diogelwch cymunedol yng Nghymru. Er enghraifft, dywedodd Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr:

“the UK Government have not addressed this issue as it affects Wales. If funding mechanisms are stretched or dissolved this will impact upon all Welsh communities with whom the police engage daily.”⁹⁶

139. Roedd Awdurdodau Heddlu Cymru a CLILC yn amcangyfrif bod costau disodli Awdurdodau Heddlu gan Gomisiynwyr wedi’u hethol yn uniongyrchol a Phanelau yr Heddlu a Throseddau lawer yn uwch nag amcangyfrifon y Swyddfa Gartref ei hun, sef rhwng £52 a £78 miliwn. Dyfynnwyd ymchwil wedi’i chomisiynu’n annibynnol gan Awdurdodau Heddlu Cymru gan y ddau dyst, yn dangos y gallai’r costau fod yn fwy na £100 miliwn yn ystod y pedair blynedd gyntaf yn y swydd. Dywedodd Cymorth i Ferched Cymru “these costs are disproportionate to any positive factors put forward by the Home Office for reform.”⁹⁷

140. Yn ei adroddiad *Police Governance in Austerity. HMIC thematic report into the effectiveness of police governance (Hydref 2010)*, pwysleisiodd HMIC nad yw cost Comisiynwyr Heddlu yn debygol o fod yn llai na chost Awdurdodau Heddlu. Mae’r adroddiad hefyd yn nodi’r costau cyfathrebu ychwanegol sy’n debygol o godi wrth sicrhau bod Comisiynwyr yn fwy gweladwy i’w cymunedau. Mae’n werth cydnabod hefyd bod HMIC, wrth wneud ei asesiad o’r costau sy’n gysylltiedig ag Awdurdodau Heddlu, wedi darganfod bod y pedwar Awdurdod Heddlu yng Nghymru ymhlith y saith lleiaf costus o’r 34 Awdurdod Heddlu a gyflwynodd ddata.⁹⁸

⁹⁶ CC(3) PR 2.

⁹⁷ CC(3)-02-11, papur 1.

⁹⁸ Roedd asesiad HMIC yn seiliedig ar Ystadegau Heddlu Gwirioneddol CIPFA 2008–09 ac mae’n cynnwys cost cynrychiolaeth ddemocrataidd, adran cymorth awdurdodau heddlu a ‘chostau eraill’ (cyfraniad at bartneriaethau; arolygon ac ymgynghoriadau; argraffu contractau (e.e. taflenni’r dreth gyngor, crynodebau plismona lleol); ffioedd

141. Roedd tystiolaeth gan Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr hefyd yn mynegi pryderon ynghylch y cynigion wrth edrych arnynt ochr yn ochr ag effaith llai o blismona rheng flaen a thoriadau yn yr arian sydd ar gael i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

142. Yn ôl CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru, byddai gan y ddyletswydd newydd ar Awdurdodau Lleol i benodi a rhedeg Panelau yr Heddlu a Throseddu oblygiadau o ran arian ac adnoddau i Awdurdodau Lleol. Dangosodd tystiolaeth gan CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru fod:

“the Home Office has indicated that a sum of £30,000 will be available for each Panel to help fund the arrangements. (It is unclear whether this will be one-off payment).”⁹⁹

143. Fodd bynnag, roedd y ddau dyst yn pryderu na fyddai hyn yn ddigon i sefydlu a chynnal y panelau. Nododd Awdurdodau Heddlu Cymru:

“the Panels will not only require administrative support, but financial advice, legal advice, policy support etc. The Panels will have the right of veto over the Police element of the council precept, veto on the appointment of the Chief Constable and other duties in relation to reporting on the Local Policing plan, appointing a Commissioner if the incumbent leaves office mid-term etc. All these responsibilities will require expert senior professional advice. Local Authorities are currently facing unprecedented budget cuts and cannot be expected to fund these additional responsibilities.”¹⁰⁰

144. Mewn tystiolaeth lafar, esboniodd Awdurdodau Heddlu Cymru fod:

“at the moment the proposal is for a one-off sum of £30,000 for the panel. Let us think about what a panel will need to do that job properly. It will need a clerk, a policy officer, someone at a senior level to take responsibility—that could be one of the local authority chief executives—financial support, such as one

archwiliadau allanol, a gwariant cysylltiedig arall). Ni chafwyd data gan yr awdurdodau heddlu canlynol: Wiltshire, Swydd Gaergrawnt, Swydd Gaerlŷr, Swydd Nottingham, Surrey, Essex, Thames Valley na Dinas Llundain.

⁹⁹ CC(3)-03-11, papur 2.

¹⁰⁰ CC(3)-03-11, papur 2.

of the treasurers, and legal support on important issues. You cannot fund that with £30,000, and that is a one-off payment. The costs of administering that system are huge. Yes, there are different ways of doing it, and all of those roles that I talked about are not necessarily full-time and could be done between local authorities, but there is a cost burden and it will have an impact.”¹⁰¹

145. Tynnwyd sylw hefyd gan CLILC ac Awdurdodau Heddlu Cymru at y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cynnig i sefydlu'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl fel endidau corfforaethol ar wahân, a Phanel yr Heddlu a Throseddau yn gydbwyllgor. Mae hyn yn dangos y byddai tri endid gwahanol yn cael eu sefydlu, a fyddai'n gofyn am brosesau biwrocraidd i ateb eu gofynion cyfreithiol, ariannol, adnoddau dynol a chyfathrebu. Mynegodd tystion bryderon ynghylch y costau a'r ffioedd archwilio ychwanegol sy'n debygol o godi o ganlyniad.

146. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol:

“I would like to draw the committee's attention to the impact assessment that I have signed and laid before Parliament for the implementation of the PCC [Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau] policy in England and Wales. The statement can be found viewed on the Home Office website at the following link: <http://www.homeoffice.gov.uk/publications/legislation/police-reform-bill/ia-police-crime-commissioners?view=Binary>... I expect the introduction of PCCs [Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau] to be cost neutral, with the exception of the key additional cost of holding elections for which we have received additional Treasury funding... We estimate the total running cost of PCCs to be between £52m - £78m based on 2012/13 prices (excluding the cost of PCC elections), the same cost of retaining the existing ineffective structure.”¹⁰²

147. Dywedwyd wrthym hefyd fod perygl y byddai costau pellach yn codi yn sgil posibilrwydd gwrthdaro rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Esboniodd Awdurdodau Heddlu Cymru y gallai'r diffyg eglurder ynghylch y cydbwysedd grym rhwng y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ddwysau tensiynau, a gall olygu bod Prif Gwnstabliaid yn cael

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 3 Chwefror 2011, para 84

¹⁰² CC(3) PRB 10.

eu diswyddo neu'n ymddiswyddo. Yn ôl Awdurdodau Heddlu Cymru, byddai'r costau dilynol yn gysylltiedig â thalu 'iawndal' i Brif Gwnstabiliaid a phenodi ymgeiswyr newydd yn sylweddol.

148. Fodd bynnag, darganfu adroddiad arolygiad HMIC ar drefniadau llywodraethiant yr heddlu, *Police Governance in Austerity. HMIC thematic report into the effectiveness of police governance (Hydref 2010)*, fod rhywfaint o ddryswch yn bodoli eisoes o ran ble mae cyfrifoldebau llywodraethiant awdurdodau heddlu yn darford a ble mae cyfrifoldebau gweithredol y prif gwnstabl yn dechrau.¹⁰³

149. Rydym yn bryderus bod angen datblygu protocolau eglur i arwain datblygiad y berthynas rhwng Comisiynwyr, Prif Gwnstabiliaid a Llywodraeth Ganolog. Rydym yn falch, felly, bod y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol wedi dweud wrthym ei fod yn:

“keen to develop a memorandum of understanding that will set out clearly the principles that aid the Home Office, the PCCs [Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu] and Chief Constables discharge their roles and responsibilities effectively”¹⁰⁴

150. Rydym o'r farn hefyd bod angen darparu eglurder a chanllawiau i awdurdodau lleol ar oblygiadau ariannol posibl y Mesur, ac o bosibl i ddiwygio a chynyddu'r cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol er mwyn tawelu eu pryderon ynghylch faint o gymorth y mae ar banelau yr heddlu a throseddu ei angen

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i bwysleisio y dylai barhau i ddatblygu protocolau eglur i arwain y berthynas rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Llywodraeth ganolog.

Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i ailedrych ar effeithiau ariannol y Mesur ar Awdurdodau Lleol, ac i ystyried adolygu'r trefniadau cyllido arfaethedig ar gyfer Panelau yr Heddlu a Throseddu yn unol â hynny.

¹⁰³ HMIC, *Police Governance in Austerity. HMIC thematic report into the effectiveness of police governance*, Hydref 2010.

¹⁰⁴ CC(3) PRB10.

6. Y ddadl dros ohirio sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru

151. Rydym wedi nodi'r pryderon a fynegwyd gan ein tystion drwy gydol yr adroddiad hwn, ynghlŷn â'r graddau y mae angen newidiadau sylweddol yn system blismona Cymru, fel y mae'r Mesur yn ei gynnig. Roedd mwyafrif ein tystion o'r farn bod Awdurdodau Heddlu yng Nghymru eisoes yn gweithio'n effeithiol i ymgorffori pryderon lleol yn amcanion strategol pawb sy'n gysylltiedig â throseddu a diogelwch cymunedol, a bod y system hon yn llwyfan ar gyfer gwelliannau pellach.

152. Rydym wedi nodi hefyd yr ofnau sylweddol a fynegwyd gan dystion am y problemau ariannol, tryloywder a galluedd posibl a fyddai'n cael eu creu drwy Comisiynwyr yr Heddlu yng Nghymru. Nodwyd hefyd y pryderon a fynegwyd y gallai hyn olygu blaenoriaethu adnoddadu ar faterion 'poblogaidd' ar draul rhai 'cudd'. Clywsom bryderon hefyd ynghylch effeithiolrwydd Panelau yr Heddlu a Throseddu, fel a gynigir yn y Mesur, i ddwyn Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gyfrif.

153. Ar sail y dystiolaeth hon, credwn y byddai'n briodol gohirio cyflwyno'r elfennau hynny o'r Mesur sy'n ymwneud â diddymu Awdurdodau Heddlu, a sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Phanelau yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, o leiaf nes bydd effeithiolrwydd eu heffaith yn Lloegr wedi'i asesu'n briodol.

154. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad hwn, ar 8 Chwefror 2011 pleidleisiodd Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn erbyn Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar ddarpariaethau'n ymwneud â Phanelau yr Heddlu a Throseddu yn Rhan 1 Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol.

155. Yn dilyn y bleidlais honno, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol:

“the LCM [Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol] vote earlier this week was not a vote on Police and Crime Commissioners. The

provisions to allow for this are now reaching the end of Committee in the House of Commons. We had worked closely with the Welsh Assembly Government on how the proposals could be altered to better fit the arrangements in Wales and the consent motion was a vote to enable those special arrangements to take effect in Wales. It is now the case that due to the abstention of the Welsh Assembly Government from the vote and the votes of others, this motion failed to pass, and the Government has no alternative but to consider how it may best introduce PCCs [Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd] within Wales, with suitable checks and balances outside of local government structures."¹⁰⁵

156. Er ein bod yn gwerthfawrogi awgrym y Gweinidog i sicrhau cydbwysedd ar gyfer cyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd y tu allan i strwythurau llywodraeth leol, credwn y byddai'n fwy buddiol pe bai Llywodraeth y DU yn gohirio dros dro yr elfennau hynny o'r mesur sy'n ymwneud â diddymu Awdurdodau Heddlu, a sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Phanelau yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru. Os bydd y strwythur newydd hwn yn effeithiol yn Lloegr, gall Llywodraeth y DU gynnig dadl lawer cryfach dros gyflwyno system debyg yng Nghymru yn y dyfodol.

157. Yn amlwg, bydd lle bob amser i wella trefniadau llywodraethiant plismona yng Nghymru: yn wir, yn ystod ein hymchwiliad dywedodd un o'n Haelodau, Mark Isherwood AC, "never had anyone outside the current system come to me to tell me that they are pleased with it. I have had many people raise concerns."¹⁰⁶

158. Credwn na all plismona yng Nghymru edrych yn ôl i'r gorffennol a bod angen edrych yn barhaus i'r dyfodol. Mae'n hanfodol y dylai ei reolau, ei reoliadau, ei ymddygiad, ei agwedd a'i ddeddfwriaeth edrych ymlaen. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, credwn ei bod yn briodol iddo allu asesu'n briodol ei gyfeiriad a'i lwybr yn y dyfodol.

¹⁰⁵ Police and Crime Panels must have approval from AMs, BBC News, 9 Chwefror 2011, <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-12406258>.

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 3 Chwefror 2011, para 31.

Prif Argymhelliad: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i ohirio cyflwyno'r agweddau hynny ar y mesur sy'n ymwneud â diddymu Awdurdodau Heddlu a sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Phanelau yr Heddlu a Throsedd yng Nghymru, o leiaf nes bydd effeithiolrwydd eu heffaith yn Lloegr wedi ei asesu.¹⁰⁷

159. Yn dilyn y gohiriad hwn, rydym yn rhagweld y byddai Llywodraeth Cymru, ar adeg briodol, yn comisiynu ymchwil bellach i nodi lefelau o ymgysylltiad y cyhoedd ag Awdurdodau Heddlu, ac i nodi awydd y cyhoedd i newid i'r model Comisiynydd a sefydlwyd yn Lloegr.

¹⁰⁷ Yr oedd 2 Aelod o'r Pwyllgor, Mark Isherwood AC a Mohammad Ashgar AC, yn gwrthwynebu cynnwys Prif Argymhelliad yr adroddiad pan gytunwyd ar yr adroddiad ar 17 Chwefror 2011. Dywedodd Sandy Mewies AC, Lynne Neagle AC, Val Lloyd AC (yn dirprwyo ar ran Joyce Watson AC), Rosemary Butler AC (yn dirprwyo ar ran Alun Davies AC), Dai Lloyd AC, Bethan Jenkins AC a Veronica German AC (yn dirprwyo ar ran Eleanor Burnham AC) eu bod yn cefnogi cynnwys y 'Prif Argymhelliad' yn yr adroddiad hwn.

7. Estyn pwerau i awdurdodau trwyddedu

“when licences are issued to an individual or individuals, they have a social responsibility. They are making a profit from getting people drunk. Let us be frank about it. That is what they are doing; that is their business. With that comes a social responsibility.”¹⁰⁸

Dr Christopher Arnold, Canolfan Adsefydlu Alcohol Tŷ Brynawel

160. Mewn ymdrech i fynd i'r afael â throseddu ac anhrefn, mae'r Mesur yn cynnwys nifer o ddarpariaethau allweddol i ddiwygio *Deddf Trwyddedu 2003*, i roi mwy o bwerau i Awdurdodau Lleol a'r heddlu fynd i'r afael ag unrhyw leoedd sy'n achosi problemau, dan ddyblu uchafswm y ddirwy am werthu alcohol yn gyson i rai o dan oed, a chaniatáu i awdurdodau lleol godi mwy am drwyddedau'n hwyr yn y nos i gyfrannu at y gost o blismona'r economi hwyr yn y nos.

161. Roedd y tystion yn ein hymchwiliad yn gefnogol at ei gilydd i'r cynigion hyn. Er enghraifft, dywedodd Tŷ Brynawel:

“there needs to be a stronger focus on alcohol misuse and on the cost to society as a whole – as well as to individuals and families... we would support the extension of powers to licensing authorities and giving them the flexibility to use additional and alcohol control criteria as part of community planning.”¹⁰⁹

162. Yn yr un modd, dywedodd Awdurdodau Heddlu Cymru:

“welcome proposals particularly, the measures to tackle the persistent selling of alcohol to children. The increase in the level of fine from £10,000 to £20,000 is also a positive step as is the proposal to enable a police officer to issue a closure notice for premises where this offence is committed... Proposals in the Bill will strengthen the hand of licensing authorities in line with a key objective in [the Welsh Government's] Substance Misuse Strategy.... we support the proposed Late Night Levy. It is a measure which will enable partners to better tackle premises which currently place

¹⁰⁸ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 27 Ionawr 2011, para 70.

¹⁰⁹ CC(3)-02-11, papur 2.

additional costs on forces. At a time of significant financial challenges on forces and local authorities we believe it is appropriate for the licensing industry to contribute to the costs of improved security and safety for those areas which are adversely affected by late night licensed premises.”¹¹⁰

163. Fodd bynnag, ar fater yr ardoll hwyr yn y nos, dywedodd Tŷ Brynawel fod:

“provision seems to make life complicated for everyone. Why put a levy on drinking rather than adjust licensing hours so that people do not all come out at 2 a.m. onto one street? That seems ludicrous from a policing point of view. There will be winners and losers in this, but the bottom line is that the loser is the person who dies from liver disease.”¹¹¹

164. Mynegodd CLILC bryderon hefyd ynghylch effaith y Mesur ar sefyllfa ariannol Awdurdodau Lleol. Tynnwyd sylw at y gofyniad ar Awdurdodau Lleol i atal trwyddedau dros dro, ac i hawlio ffioedd sydd heb eu talu fel dyled sifil a fydd yn golygu pwysau ychwanegol ar adnoddau Awdurdodau Lleol, gan ychwanegu:

“the lack of clarity on fees generally in the Bill is a concern as many authorities do not believe the current level of fees fully covers the expenses incurred.”¹¹²

165. Roedd CLILC yn pryderu hefyd:

“about the proposal to change the issuing of temporary licences as it is felt that often such requests are for charitable events and this change could have a negative effect on such events. It is felt that some people will always apply for temporary licences rather than apply for a full licence as it may be seen as a cheaper and less challenging option, for example, as only the police can object to a temporary licence. Some concern about the late night levy has also been raised, for example, the impact of such an additional financial burden on some smaller late night operators. However, it is noted that there can be problems in the early hours of the morning and as

¹¹⁰ CC(3)-03-11, papur 2.

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, 27 Ionawr 2011, para 107.

¹¹² CC(3)-03-11, papur 1.

such, it may be reasonable to expect licensees to pay a contribution to the cost of policing etc. from the profits they make in staying open longer.”¹¹³

166. Roedd ACPO Cymru yn cytuno y byddai'n rhesymol disgwyl i drwyddedeion gyfrannu at y gost o blismona, gan ddweud:

“it is a measure which will enable partners to better tackle premises which currently place additional and significant costs on forces. These premises, often grouped into areas geographically small, place disproportionate demands on police resources for significant periods of the night and well into the early morning and require resourcing over and above those provided to the vast majority of our communities. At a time of significant financial challenges on forces and local authorities we believe it is appropriate for the licensing industry to contribute to the costs of improved security and safety for those areas which are adversely affected by late night licensed premises.”¹¹⁴

167. Credwn fod y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ein hymchwiliad yn cefnogi cynigion y Mesur at ei gilydd o safbwynt estyn pwerau i awdurdodau trwyddedu.

¹¹³ CC(3)-03-11, papur 1.

¹¹⁴ CC(3) PR 1.

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yma:

http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home/cc_inquiries/cc3_inq_police_reform/cc_3_police_reform_papers_and_transcripts.htm

27 Ionawr

Nesta Lloyd Jones,
Cydllynydd Materion
Cyfreithiol

Cymorth i Ferched Cymru

Dr Christopher Arnold,
Prif Swyddog Gweithredol

Canolfan Adsefydlu Alcohol Tŷ
Brynawel

3 Chwefror

Steve Thomas,
Prif Weithredwr
Naomi Alleyne,
Cyfarwyddwr
Cydraddoldeb a
Chyfiawnder
Cymdeithasol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mr Alun Lewis,
Cadeirydd - Awdurdod
Heddlu Gogledd Cymru
Mr Tal Michael,
Prif Weithredwr -
Awdurdod Heddlu
Gogledd Cymru
Mrs Cilla Davies,
Cadeirydd - Awdurdod
Heddlu Gwent

Awdurdodau Heddlu Cymru

Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yma: http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-ccc-home/cc_inquiries/cc3_inq_police_reform/cc_3__pr_response__.htm

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
ACPO Cymru	PRB 01
Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr	PRB 02
Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu	PRB 03
Yr Ymgyrch yn erbyn Plismona Gwleidyddol	PRB 04
Arolygydd Cwnstablïaeth Ei Mawrhydi	PRB 05
Cymorth i Ferched Cymru	PRB 06
Canolfan Adsefydlu Alcohol Tŷ Brynawel	PRB 07
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	PRB 08
Awdurdodau Heddlu Cymru	PRB 09
Y Gweinidog Gwladol dros yr Heddlu a Chyfiawnder Cymdeithasol	PRB 10